# CYNLLUN STRATEGOL GWAITH IEUENCTID CEREDIGION 2027-2032

DRAFT

**Awdur: Gethin Jones, Rheolwr Corfforaethol Gwasanaeth Ieuenctid Ceredigion**

**Fersiwn: 3**

**Dyddiad: 02/07/2026**

**"Slogan / Pennawd Gwasanaeth i'w gynnwys"**

# Cynnwys


**Cyflwyniad** ..... 4

Rhagair gan y Prif Weithredwr / Arweinydd ..... 4

Croeso i Geredigion ..... 5

Crynodeb Gweithredol ..... 7

**Rhan 1 — Fframwaith Strategol** ..... 10

**1.1 Ein Gweledigaeth, Cenhadaeth a Gwerthoedd** ..... 10

Ein gweledigaeth ..... 10

Ein cenhadaeth ..... 11

Ein gwerthoedd wedi'u cyd-gynllunio ..... 11

Gwaith ieuenctid sy'n seiliedig ar hawliau ..... 12

Egwyddorion trawsbynciol ..... 13

**1.2 Cyd-destun Statudol a Fframwaith Cenedlaethol** ..... 14

Dyletswydd statudol newydd ar gyfer gwaith ieuenctid ..... 14

Safonau Gwaith Ieuenctid Cenedlaethol ..... 14

Hawliau a chyfranogiad plant ..... 15

Y Gymraeg a Chymraeg 2050 ..... 16

Gwaith ieuenctid digidol ..... 16

Cynllunio Strategol Pum Mlynedd ac Adroddiadau Blynyddol ..... 17

Disgwyliadau partneriaeth ..... 18

Crynodeb ..... 18

**Rhan 2 – Deall Ein System Gwaith Ieuenctid Bresennol yng Ngheredigion** ..... 19

Diben yr adran hon ..... 19

System gwaith ieuenctid Ceredigion ..... 19

Cyrhaeddiad a chyfranogiad presennol ..... 20

Beth mae ein data ymgysylltu yn ei ddangos ..... 20

Y Gymraeg, hunaniaeth a gwaith ieuenctid dwyieithog ..... 22

Tlodi, anghydraddoldeb ac anfantais wledig ..... 23

Beth gafodd ei ddysgu o ddarpariaeth 2025-26 ..... 23

Ymyrraeth gynnar, Fframwaith Ymgysylltiad a Chynnydd Ieuenctid ac atal ..... 24

Gwaith ieuenctid digidol a chyfathrebu ..... 25

Cyfraniad partneriaethau a'r sector gwirfoddol ..... 26


DRAFT

Y gweithlu, ansawdd a chynaliadwyedd ..... 27
Cryfderau cyfredol i adeiladu arnynt ..... 27
Beth mae hyn yn ei olygu i'r Strategaeth ..... 28
**Rhan 3 – Blaenoriaethau Strategol a Gweithredu ar y Cyd** ..... 30
Cyflwyniad ..... 30
Pam y blaenoriaethau hyn? ..... 31
Blaenoriaeth 1 – Mynediad at Waith Ieuenctid o Safon Uchel ..... 33
Blaenoriaeth 2 – Cymunedau Gwledig Ffyniannus ..... 35
Blaenoriaeth 3 – Llesiant, Perthyn a Pherthnasoedd Dibynadwy ..... 37
Blaenoriaeth 4 – Llais, Cyfranogiad ac Arweinyddiaeth Ieuenctid ..... 39
Blaenoriaeth 5 – Rhwydwaith Gweithlu a Gwirfoddolwyr Medrus, Cynaliadwy a Dwyieithog ..... 41
Blaenoriaeth 6 – Partneriaethau, Cymunedau a Gweithredu ar y Cyd ..... 43
Sut bydd llwyddiant yn edrych erbyn 2032 ..... 46
Cynllun Gweithredu Cyfunol 2027-2032 ..... 48
Mesur Llwyddiant ac Effaith ..... 52
**Rhan 4 – Cyflawni, Monitro a Gwella'r Strategaeth** ..... 55
Cyflawni'r Strategaeth ..... 55
Llywodraethu ac atebolrwydd ..... 55
Gwrando, dysgu ac adrodd yn ôl ..... 57
Mesur llwyddiant ..... 58
Adolygiad blynyddol ac adroddiad blynyddol ..... 59
Gwelliant parhaus ..... 59
Yn y dyfodol ..... 60
Cymeradwyaeth ac Ymrwymiad ..... 60
**RHAN 5 - ATODIADAU** ..... 62
Atodiad A – Sut cafodd y Strategaeth hon ei datblygu ..... 62
Atodiad B – Llais Pobl Ifanc ..... 65
Atodiad C – Sefydliadau Partner a Diolchiadau ..... 68
Atodiad D – Map System Gwaith Ieuenctid Ceredigion ..... 74
Atodiad E – Cyfateb â Strategaethau Cenedlaethol, Rhanbarthol a Lleol ..... 75
Atodiad F – Sylfaen Dystiolaeth a Chyfeiriadau ..... 76
Atodiad G – Rhestr Wirio Cydymffurfio â Gofynion Statudol ..... 77

DRAFT

# Cyflwyniad

## Rhagair gan y Prif Weithredwr / Arweinydd

PHOTO

Mae'n bleser cyflwyno **Cynllun Strategol Gwaith Ieuenctid Ceredigion 2027-2032** — cynllun a luniwyd gyda, ar gyfer, ac ar y cyd â'n pobl ifanc, cymunedau, partneriaid a gweithwyr ieuenctid.

Mae Ceredigion yn sir unigryw. Mae ein daearyddiaeth, natur wledig, cymunedau cryf, iaith a diwylliant Cymreig cyfoethog yn llunio profiadau pobl ifanc — ond maent hefyd yn creu heriau o ran trafnidiaeth, mynediad ac unigedd y mae'n rhaid i ni ymateb iddynt gyda chreadigrwydd, tosturi ac uchelgais.

Mae'r hyn rydym wedi'i glywed yn glir: pan fydd pobl ifanc yn teimlo'n ddiogel, yn gartrefol a bod rhywun yn gwrando arnynt, maen nhw'n ffynnu. Pan fydd gan weithwyr ieuenctid yr amser i feithrin perthnasoedd dibynadwy, mae hyder yn tyfu. A phan fydd cymunedau'n dod at ei gilydd o amgylch pobl ifanc, mae pawb yn elwa.

Mae'r cynllun hwn yn ymateb i **Gyfarwyddydau Gwaith Ieuenctid (2026) Llywodraeth Cymru,** gan amlinellu sut y byddwn yn cyflawni ein dyletswydd statudol i ddarparu cynnig gwaith ieuenctid dwyieithog, hygyrch ac o safon uchel i bob person ifanc 11-25 oed. Mae wedi'i seilio ar ddull sy'n seiliedig ar hawliau, wedi'i lunio gan leisiau pobl ifanc ac yn cyfateb â disgwyliadau cenedlaethol ynghylch cyfranogiad, llesiant a chydgynhyrchu.

Mae gwaith ieuenctid yng Ngheredigion yn chwarae ròl hanfodol fel gwasanaeth ymyrraeth gynnar ac atal rheng flaen — cefnogi llesiant, lleihau ymddieithrio, a helpu pobl ifanc i symud yn gadarnhaol i addysg, hyfforddiant a chyflogaeth.

Yn bwysicaf oll, mae'r cynllun hwn yn rhoi llais pobl ifanc wrth wraidd y cyfan. Mae pobl ifanc wedi dweud wrthym beth sy'n bwysig: mannau diogel, gweithwyr ieuenctid a'r gweithwyr cymorth ieuenctid eu hunain, mwy o gyfleoedd, a chymorth sy'n adlewyrchu pwy ydyn nhw a ble maen nhw'n byw. Y cynllun hwn yw ein hymrwymiad i weithredu ar hynny.

Bydd ei gyflawni yn gofyn am bartneriaethau cryf, rhannu cyfrifoldeb a chydweithio parhaus ar draws gwasanaethau a chymunedau.

Diolch i bawb sydd wedi cyfrannu at lunio'r weledigaeth hon.

Mae ein huchelgais yn syml: bod pob person ifanc yng Ngheredigion, lle bynnag y maen nhw'n byw, yn teimlo'n hyderus, bod ganddynt gysylltiad, eu bod yn cael eu gwerthfawrogi ac yn obeithiol am eu dyfodol. Byddwn yn parhau i wrando, dysgu ac esblygu — gan gadw pobl ifanc wrth wraidd yr hyn a wnawn bob amser.

Llofnod,

DRAFT

Prif Weithredwr / Arweinydd

# Croeso i Geredigion

## Croeso cynnes i'n sir — ein pobl, ein lleoedd, a'n hunaniaeth

Mae Ceredigion yn sir sydd wedi'i llunio gan ei thirwedd, ei hiaith, ei diwylliant ac ymdeimlad cryf o gymuned. O drefi arfordirol i bentrefi gwledig a threfi marchnad ar draws y sir, mae pobl ifanc yn cael eu magu mewn lleoedd sy'n llawn treftadaeth, hunaniaeth a pherthyn. Mae'r rhain yn gryfderau pwysig sy'n cyfrannu'n gadarnhaol at lesiant, gwydnwch ac ymdeimlad o gysylltiad pobl ifanc â'u cymunedau.

Mae natur wledig Ceredigion yn cynnig cyfleoedd a heriau. Mae llawer o bobl ifanc yn elwa ar berthnasoedd cymunedol cryf, mynediad at natur, cyfleoedd ar gyfer dysgu yn yr awyr agored a chysylltiad agos â diwylliant, iaith a lle. Ar yr un pryd, gall natur wledig greu rhwystrau sy'n gysylltiedig â thrafnidiaeth, mynediad at wasanaethau, fforddiadwyedd tai, cysylltedd digidol a mynediad at gyfleoedd.

Er bod Ceredigion yn cael ei hystyried yn sir wledig gyfoethog yn aml, mae tystiolaeth yn dangos natur gudd tlodi ac anghydraddoldeb gwledig. Yn aml, mae tlodi yn llai gweladwy mewn cymunedau gwledig ond gellir ei brofi trwy gyfuniad o incwm isel, costau byw cynyddol, trafnidiaeth gyhoeddus gyfyngedig, pwysau tai a heriau o ran cael mynediad at wasanaethau. Gall y pwysau hyn effeithio ar bobl ifanc a theuluoedd waeth ble maen nhw'n byw.

Felly mae gan waith ieuenctid rôl bwysig i'w chwarae o ran helpu pobl ifanc i oresgyn rhwystrau, cael mynediad at gyfleoedd, cryfhau cysylltiadau a datblygu'r sgiliau, yr hyder a'r gwydnwch y mae eu hangen arnynt i ffynnu.

**Ffeithiau allweddol am Geredigion**

- Mae gan Geredigion boblogaeth o tua 72,600 o bobl ac mae'n un o'r siroedd lleiaf poblog yng Nghymru, gyda chymunedau wedi'u gwasgaru ar draws ardaloedd gwledig, arfordirol ac ucheldirol.
- Mae tua 45% o'r trigolion yn gallu siarad Cymraeg sy'n golygu bod gan y sir un o'r hunaniaethau Cymraeg cryfaf yng Nghymru.
- Mae Ceredigion ymysg yr awdurdodau lleol mwyaf difreintiedig yng Nghymru o ran mynediad at wasanaethau, gyda bron hanner yr ardaloedd lleol wedi'u cynnwys o fewn y 10% mwyaf difreintiedig yn genedlaethol o ran cael mynediad at wasanaethau.
- Amcangyfrifir bod tua 35% o aelwydydd yn byw mewn tlodi cymharol o ran incwm, tra bod bron 28% o blant yn byw mewn tlodi ar ôl costau tai.
- Mae fforddiadwyedd tai ymhlith yr heriau mwyaf sy'n wynebu cymunedau lleol, gyda Cheredigion wedi'i nodi fel un o'r ardaloedd lleiaf fforddiadwy yng Nghymru i drigolion lleol sy'n ceisio prynu cartref.

DRAFT

- Mae cysylltedd digidol yn parhau i wella, ond mae darpariaeth band eang, cysylltedd dyfeisiau symudol a sgiliau digidol yn parhau i fod yn anghyson mewn rhai cymunedau gwledig.
- Mae amseroedd teithio i gyflogaeth, addysg, cyfleoedd hamdden a gwasanaethau hanfodol yn aml yn hwy na chyfartaledd Cymru, gan greu rhwystrau ychwanegol i rai pobl ifanc.
- Dywedodd llawer o bobl ifanc wrthym eu bod yn teimlo'n falch o'u cymunedau ac yn gwerthfawrogi'r diogelwch, diwylliant, iaith ac amgylchedd naturiol y mae Ceredigion yn eu cynnig.
- Mae Ceredigion yn elwa ar rwydweithiau cymunedol cryf, sefydliadau gwirfoddol gweithgar a thraddodiad hir o waith ieuenctid, gwirfoddoli a chyfranogiad cymunedol.

**Pam mae hyn yn bwysig i waith ieuenctid**

Mae ein daearyddiaeth, ein cymunedau a'n diwylliant yn llunio'r hyn y mae angen i waith ieuenctid fod yng Ngheredigion.

Rhaid i waith ieuenctid fod yn:

1. Hygyrch a chynhwysol.
2. Gweladwy o fewn ysgolion, cymunedau a mannau digidol.
3. Hyblyg wrth ymateb i heriau gwledig.
4. Wedi'i wreiddio mewn perthnasoedd dibynadwy.
5. Dwyieithog ac adlewyrchu hunaniaeth leol.
6. Wedi'i gyd-gynhyrchu gyda phobl ifanc.
7. Dan arweiniad partneriaeth ac yn canolbwyntio ar y gymuned.
8. Ymatebol i anghydraddoldeb, tlodi a rhwystrau i gyfranogiad.
9. Creadigol, arloesol a chanolbwyntio ar lesiant.

Mae'r strategaeth hon yn adeiladu ar y cryfderau niferus sy'n bodoli ar draws Ceredigion gan gydnabod yr heriau y mae rhai pobl ifanc yn eu hwynebu. Mae'n nodi sut y byddwn yn defnyddio gwaith ieuenctid i greu cyfleoedd, lleihau rhwystrau a helpu pobl ifanc i deimlo bod ganddynt gysylltiad, eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, eu cynnwys ac yn obeithiol am eu dyfodol.

| |
|---|
| Dros y misoedd nesaf byddwn yn cynnal prosiect gyda phobl ifanc i fapio'r holl ddarpariaeth ieuenctid ar draws Ceredigion y byddwn yn ceisio ei gynnwys yma. |

DRAFT

## Crynodeb Gweithredol

Mae **Cynllun Strategol Gwaith Ieuenctid Ceredigion 2027-2032** yn amlinellu dull clir, uchelgeisiol a seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer darparu gwaith ieuenctid o safon uchel ar draws y sir, yn unol â **Chyfarwyddydau Gwaith Ieuenctid Llywodraeth Cymru (2026).**

Mae Ceredigion yn sir wledig unigryw gyda chymunedau gwasgaredig, hunaniaeth Gymraeg gryf, ac amrywiaeth fawr o ran cael mynediad at wasanaethau a chyfleoedd. Er bod llawer o bobl ifanc yn elwa ar gysylltiadau cymunedol cryf, mynediad at natur, treftadaeth ddiwylliannol gyfoethog ac ymdeimlad cryf o berthyn, mae eraill yn profi rhwystrau sy'n gysylltiedig â thrafnidiaeth, cost, mynediad digidol ac unigedd. Mae'r heriau hyn yn cael eu gwaethygu gan faterion ehangach gan gynnwys tlodi, pwysau llesiant a chyfranogiad anghyfartal mewn gwneud penderfyniadau.

Yn y cyd-destun hwn, mae gwaith ieuenctid yn chwarae ròl hanfodol fel gwasanaeth ymyrraeth gynnar ac atal rheng flaen, gan helpu pobl ifanc i feithrin hyder, gwella llesiant, datblygu sgiliau, a phontio'n gadarnhaol i addysg, hyfforddiant a chyflogaeth. Mae hefyd yn darparu mecanwaith hanfodol ar gyfer cryfhau cyfranogiad, gan sicrhau bod llais gan bobl ifanc wrth lunio gwasanaethau a'u cymunedau.

Mae'r cynllun hwn wedi'i gyd-gynhyrchu trwy ymgysylltu helaeth â phobl ifanc, ymarferwyr, cymunedau a phartneriaid, gan sicrhau bod y blaenoriaethau, yr uchelgeisiau a'r camau gweithredu yn adlewyrchu anghenion lleol, profiadau bywyd a dyheadau. Mae pobl ifanc wedi bod yn glir ynghylch yr hyn sy'n bwysig iddyn nhw: **mannau diogel a chroesawgar, oedolion dibynadwy, cyfleoedd ystyrlon, mynediad gwell at wybodaeth, a chefnogaeth sy'n adlewyrchu eu bywydau a'u cymunedau.** Mae'r cynllun hwn yn ymateb yn uniongyrchol i'r blaenoriaethau hynny.

Dros y pum mlynedd nesaf, bydd Ceredigion yn darparu cynnig gwaith ieuenctid clir a chyson, gan sicrhau y gall pob person ifanc 11-25 oed gael mynediad at fodel cyfunol o ddarpariaeth trwy'r canlynol:

- Gwaith ieuenctid yn y gymuned
- Gwaith ieuenctid yn yr ysgol
- Allgymorth a darpariaeth leol
- Ymyriadau wedi'u targedu
- Dulliau digidol ac arloesol

Mae'r strategaeth yn cyfateb yn agos â Strategaeth Gorfforaethol y Cyngor, Cynllun Llesiant y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, a blaenoriaethau ehangach y sir, gan gynnwys mynd i'r afael â thlodi, gwella llesiant, cryfhau cymunedau, hyrwyddo'r Gymraeg, a chynyddu cyfranogiad. Mae gwaith ieuenctid yn cyfrannu'n uniongyrchol

DRAFT

at yr amcanion hyn trwy gefnogi gwydnwch, lleihau anghydraddoldeb, ac adeiladu cymunedau cryfach a mwy cysylltiedig.

Mae cynnig gwaith ieuenctid Ceredigion yn cael ei ddarparu o fewn Model Gydol Oes ehangach, gan greu cyfleoedd ar gyfer ymyrraeth gynharach, pontio llyfnach a chysylltiadau cryfach rhwng pobl ifanc, teuluoedd a chymunedau. Mae'r dull hwn hefyd yn darparu cyfleoedd ar gyfer dysgu rhyng-genedlaethol, gwirfoddoli a gweithredu cymunedol, gan helpu i gryfhau perthnasoedd ar draws cenedlaethau ac adeiladu cymunedau gwydn.

Mae'r cynllun yn cael ei ategu gan ddull dwyieithog a chynhwysol sy'n seiliedig ar hawliau. Mae'n adlewyrchu egwyddorion Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol Cymru, Safonau Gwaith Ieuenctid Cenedlaethol a gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer sector gwaith ieuenctid cryfach a chynaliadwy. Trwy gydol y cynllun, rhoddir pwyslais penodol ar ddarpariaeth Gymraeg, cynhwysiant digidol, mynediad cyfartal a chyfranogiad ystyrlon, gan sicrhau y gall pob person ifanc elwa ar gyfleoedd gwaith ieuenctid o safon uchel waeth beth fo'u cefndir, eu hunaniaeth neu eu hamgylchiadau.

Bydd cyflawni'r strategaeth hon yn gofyn am bartneriaethau cryf, gweithlu medrus a chynaliadwy, a chydweithio parhaus ar draws sectorau. Mae hefyd yn gofyn am ffocws parhaus ar effaith, gan sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n effeithiol i gefnogi'r bobl ifanc a'r cymunedau sydd eu hangen fwyaf.

**Ymrwymiadau trawsbynciol**

Mae'r strategaeth hon wedi'i hategu gan sawl ymrwymiad trawsbynciol a fydd yn dylanwadu ar bob agwedd ar y ddarpariaeth dros y pum mlynedd nesaf.

Bydd y Gymraeg yn cael ei gwau trwy bob agwedd ar ddarpariaeth gwaith ieuenctid, gan adlewyrchu hunaniaeth ieithyddol Ceredigion a chefnogi uchelgeisiau **Cymraeg 2050, Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg,** a **Strategaeth Hybu'r Iaith Gymraeg** y Cyngor. Er nad yw'n flaenoriaeth annibynnol, bydd hyrwyddo cyfleoedd i bobl ifanc ddefnyddio, profi a datblygu hyder yn y Gymraeg yn rhan annatod o bob blaenoriaeth yn y cynllun hwn.

Bydd gwaith ieuenctid digidol a chynhwysiant digidol hefyd yn cael ei ymgorffori ar draws y ddarpariaeth. Gan adeiladu ar Strategaeth Ddigidol y Cyngor, byddwn yn defnyddio dulliau digidol i wella cyfranogiad, ymgysylltiad, dysgu a mynediad at gymorth, gan gydnabod a mynd i'r afael yr un pryd â'r rhwystrau a grëwyd gan allgáu digidol mewn rhai cymunedau.

Rydym wedi ymrwymo i ddarparu gwaith ieuenctid cynhwysol sy'n ymgysylltu'n weithredol ac yn cefnogi pobl ifanc sydd heb gynrychiolaeth ddigonol, sydd wedi'u hymylu neu sy'n wynebu rhwystrau ychwanegol i gyfranogiad. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod gwasanaethau yn hygyrch, yn deg ac yn ymatebol i anghenion, hunaniaethau a phrofiadau amrywiol pobl ifanc ar draws Ceredigion.

Fel rhan o'r fframwaith statudol newydd ar gyfer gwaith ieuenctid yng Nghymru, bydd y Safonau Cenedlaethol ar gyfer Gwaith Ieuenctid yn llywio'r broses o ddylunio, gweithredu a gwerthuso'r holl ddarpariaeth. Bydd y safonau hyn yn darparu fframwaith cyffredin ar gyfer ansawdd, cyfranogiad, diogelu, datblygu'r gweithlu a gwelliant parhaus.

Byddwn yn parhau i ddatblygu dull sy'n seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer gwaith ieuenctid, gan ddefnyddio data, ymchwil, gwerthuso a lleisiau pobl ifanc i ddeall angen, mesur effaith ac ysgogi gwelliant parhaus. Bydd hyn yn cefnogi gwneud penderfyniadau effeithiol ac yn sicrhau bod adnoddau'n cael eu targedu lle y gallant wneud y gwahaniaeth mwyaf.

Mae cynnig gwaith ieuenctid Ceredigion yn cael ei gyflawni o fewn Model Gydol Oes ehangach, gan greu cyfleoedd ar gyfer cydweithio cryfach ar draws gwasanaethau a chenedlaethau. Ochr yn ochr â chefnogi pobl ifanc, byddwn yn hyrwyddo cyfleoedd ar gyfer dysgu rhyng-genedlaethol, gwirfoddoli, mentora a gweithredu cymunedol sy'n cryfhau cysylltiadau rhwng pobl ifanc a'r cymunedau lle maent yn byw.

**Beth fydd y cynllun hwn yn ei gyflawni**

Dros y pum mlynedd nesaf, bydd y cynllun hwn yn:

- Sefydlu cynnig gwaith ieuenctid clir, hygyrch ar draws y sir
- Lleihau anghydraddoldebau o ran mynediad, yn enwedig y rhai sy'n gysylltiedig â natur wledig, trafnidiaeth ac allgáu digidol
- Cryfhau rôl gwaith ieuenctid o ran atal ac ymyrraeth gynnar
- Ymgorffori llais pobl ifanc a chyd-gynhyrchu wrth wneud penderfyniadau
- Cefnogi gweithlu medrus, dwyieithog a chynaliadwy
- Cryfhau gweithio mewn partneriaeth ar draws gwasanaethau a sectorau
- Hyrwyddo mwy o ddefnydd a gwelededd o'r Gymraeg trwy waith ieuenctid
- Annog cynhwysiant digidol ac arloesedd mewn ymarfer gwaith ieuenctid
- Creu cyfleoedd ar gyfer dysgu rhyng-genedlaethol, gwirfoddoli a chyfranogiad cymunedol
- Cyfrannu at ganlyniadau ehangach gan gynnwys llesiant, addysg, cyflogadwyedd, gwydnwch cymunedol a chynaliadwyedd diwylliannol

Ein huchelgais yw y gall pob person ifanc yng Ngheredigion, lle bynnag y maent yn byw a beth bynnag fo'u cefndir, gael mynediad at gyfleoedd gwaith ieuenctid o safon uchel sy'n eu helpu i deimlo'n hyderus, bod ganddynt gysylltiad, eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, wedi eu grymuso ac yn gallu llunio eu dyfodol, eu cymunedau a'r sir y maent yn ei galw'n gartref.

Wrth gyflawni'r cynllun hwn, bydd gwaith ieuenctid yn parhau i wneud cyfraniad pwysig at lesiant, gwydnwch, ffyniant a bywiogrwydd diwylliannol Ceredigion ar gyfer cenedlaethau nawr ac yn y dyfodol.



DRAFT

# Rhan 1 — Fframwaith Strategol

Mae'r adran hon yn amlinellu sylfeini gwaith ieuenctid yng Ngheredigion ac yn darparu'r fframwaith a fydd yn llywio'r ddarpariaeth dros y pum mlynedd nesaf.

Mae'n cyflwyno ein gweledigaeth, cenhadaeth, gwerthoedd a'r egwyddorion sy'n sail i'n dull o weithio gyda phobl ifanc. Gyda'i gilydd, mae'r rhain yn adlewyrchu lleisiau pobl ifanc, cryfderau ein cymunedau a'n hymrwymiad at ddarparu gwaith ieuenctid o safon uchel sy'n hygyrch, yn gynhwysol ac yn ymatebol i anghenion lleol.

Mae'r adran hefyd yn egluro'r polisi cenedlaethol a'r cyd-destun statudol y mae gwaith ieuenctid yn gweithredu o'i fewn. Mae cyflwyno Cyfarwyddydau Gwasanaethau Cymorth Ieuenctid (Darparu Gwaith Ieuenctid) (Cymru) 2026 yn cynrychioli newid mawr ar gyfer gwaith ieuenctid yng Nghymru, gan roi cyfrifoldeb statudol ar awdurdodau lleol i sicrhau mynediad at gyfleoedd gwaith ieuenctid i bobl ifanc 11-25 oed. Mae'r cynllun hwn yn nodi sut y bydd Ceredigion yn ymateb i'r cyfrifoldeb hwnnw gan adlewyrchu yr un pryd y cyfleoedd a'r heriau unigryw y mae pobl ifanc sy'n byw mewn sir wledig yn eu hwynebu.

Trwy gydol y strategaeth hon bydd ein gwaith yn cael ei arwain gan nifer o egwyddorion trawsbynciol, gan gynnwys ymarfer sy'n seiliedig ar hawliau, cydraddoldeb a chynhwysiant, hybu'r Gymraeg, gwaith ieuenctid digidol, gweithio mewn partneriaeth a gwelliant parhaus. Mae'r egwyddorion hyn yn rhedeg trwy bob agwedd ar y strategaeth ac yn cefnogi ein huchelgais, sef y gall pob person ifanc yng Ngheredigion gael mynediad at gyfleoedd gwaith ieuenctid o safon uchel sy'n ei helpu i ffynnu, cyfranogi a gwireddu ei botensial.

## 1.1 Ein Gweledigaeth, Cenhadaeth a Gwerthoedd

**Ein gweledigaeth**

Bydd gan bob person ifanc yng Ngheredigion fynediad at gyfleoedd gwaith ieuenctid o safon uchel sy'n eu galluogi i ffynnu, gwireddu eu potensial, cryfhau eu cymunedau a llunio eu dyfodol gyda hyder.

Rydym am i waith ieuenctid yng Ngheredigion fod yn weladwy, yn hygyrch ac yn berthnasol i fywydau pobl ifanc. Trwy berthnasoedd dibynadwy, cyfleoedd ystyrlon ac ymdeimlad cryf o berthyn, byddwn yn helpu pobl ifanc i ddatblygu'r wybodaeth, y sgiliau a'r hyder y mae eu hangen arnynt i lywio heriau, cyfrannu at eu cymunedau a chyflawni eu dyheadau.

Mae ein gweledigaeth wedi cael ei llunio gan leisiau pobl ifanc a ddywedodd wrthym eu bod nhw am gael cyfleoedd sy'n eu helpu i deimlo'n ddiogel, bod ganddynt gysylltiad, bod rhywun yn gwrando arnynt, eu bod yn cael eu parchu ac yn obeithiol am eu dyfodol.

DRAFT

## Ein cenhadaeth

Ein cenhadaeth yw gweithio ochr yn ochr â phobl ifanc, cymunedau a phartneriaid i ddarparu gwaith ieuenctid hygyrch, cynhwysol ac effeithiol ar draws Ceredigion.

Byddwn yn darparu ystod eang o gyfleoedd gwaith ieuenctid trwy ysgolion, cymunedau, allgymorth, ymyriadau wedi'u targedu a dulliau digidol, gan sicrhau y gall pobl ifanc gael mynediad at gefnogaeth a chyfleoedd waeth ble maen nhw'n byw neu beth bynnag fo'u hamgylchiadau unigol.

Trwy ddull gweithredu dwyieithog, seiliedig ar hawliau ac sy'n canolbwyntio ar berthnasoedd, byddwn yn helpu pobl ifanc i wella eu llesiant, meithrin perthnasoedd cadarnhaol, ennill sgiliau newydd, cymryd rhan wrth wneud penderfyniadau a phontio'n llwyddiannus i fod yn oedolion.

Mae gwaith ieuenctid yng Ngheredigion yn rhan o Fodel Gydol Oes ehangach, gan greu cyfleoedd ar gyfer ymyrraeth gynharach, partneriaethau cryfach a phontio llyfnach rhwng gwasanaethau. Mae'r dull gweithredu hwn yn cynnig profiad mwy cydgysylltiedig i bobl ifanc ac yn creu cyfleoedd ar gyfer dysgu rhyng-genedlaethol, gwirfoddoli a chyfranogiad cymunedol.

Fel sir wledig, rydym yn cydnabod y cyfleoedd a'r heriau y mae natur wledig yn eu cyflwyno. Er y gall trafnidiaeth, pellter a mynediad greu rhwystrau i rai pobl ifanc, mae cymunedau, diwylliant, y Gymraeg, arfordir, cefn gwlad ac amgylchedd naturiol Ceredigion yn darparu cyfleoedd unigryw ar gyfer hyrwyddo llesiant, perthyn, ymwybyddiaeth amgylcheddol, treftadaeth, hunaniaeth a chysylltiad cymunedol.

Ein cenhadaeth yw lleihau rhwystrau ac adeiladu ar y cryfderau hyn yr un pryd. Ochr yn ochr â darpariaeth wyneb yn wyneb, byddwn yn croesawu gwaith ieuenctid digidol a chynhwysiant digidol i wella cyfranogiad, cyfathrebu, dysgu a mynediad at gymorth.

## Ein gwerthoedd wedi'u cyd-gynllunio

Mae ein gwerthoedd wedi cael eu llunio trwy ein gweithwyr ieuenctid a'u perthnasoedd dibynadwy â'r bobl ifanc y maent yn cwrdd â nhw'n wythnosol ac yn ddyddiol. Byddant yn chwarae ròl hanfodol wrth sicrhau y gellir cyflawni ein blaenoriaethau a'n bod yn bodloni'r safonau cenedlaethol cyffredinol ar gyfer gwaith ieuenctid yng Nghymru.

*Canolbwyntio ar y person ifanc*

Mae pobl ifanc wrth wraidd popeth a wnawn. Rydym yn gwrando ar eu barn, yn gwerthfawrogi eu profiadau, ac yn eu cefnogi i ddylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau.

DRAFT

*Cynhwysol*

Credwn y dylai pob person ifanc gael mynediad at gyfleoedd gwaith ieuenctid o safon uchel waeth beth fo'u cefndir, hunaniaeth, iaith, gallu, lleoliad neu amgylchiadau.

*Parchus*

Rydym yn meithrin perthnasoedd sy'n seiliedig ar ymddiriedaeth, parch, empathi a dealltwriaeth. Dywedodd pobl ifanc wrthym yn gyson fod teimlo bod rhywun yn gwrando arnynt, eu bod yn cael eu derbyn, a'u bod yn rhydd rhag barn yn ganolog i brofiadau gwaith ieuenctid cadarnhaol.

*Grymuso*

Rydym yn helpu pobl ifanc i gydnabod eu cryfderau, meithrin hyder, datblygu sgiliau a chymryd rhan weithredol wrth lunio eu dyfodol a'u cymunedau.

*Creadigol a hwyl*

Dywedodd pobl ifanc wrthym eu bod am gael cyfleoedd sy'n ennyn diddordeb, yn berthnasol, yn hwyl ac yn ystyrlon. Byddwn yn creu amgylcheddau lle gall pobl ifanc roi cynnig ar ddiddordebau newydd, mynegi eu hunain a mwynhau profiadau cadarnhaol.

*Cydweithredol*

Rydym yn gweithio mewn partneriaeth â phobl ifanc, teuluoedd, ysgolion, cymunedau, sefydliadau gwirfoddol a gwasanaethau cyhoeddus i gael y canlyniadau gorau posibl.

*Uchelgeisiol*

Rydym wedi ymrwymo i welliant parhaus a darparu gwaith ieuenctid o safon uchel sy'n helpu pobl ifanc i ffynnu a gwireddu eu potensial.

**Gwaith ieuenctid sy'n seiliedig ar hawliau**

Mae'r strategaeth hon wedi'i hategu gan ddull gweithredu sy'n seiliedig ar hawliau ar gyfer gwaith ieuenctid, ac mae wedi'i llywio gan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol Cymru, a chanllawiau statudol Llywodraeth Cymru ar gyfer gwaith ieuenctid.

Credwn fod gan bob person ifanc yr hawl i fod yn ddiogel, i gael eu parchu a chael rhywun i wrando arnynt a chymryd rhan mewn penderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau. Mae gwaith ieuenctid yn chwarae ròl hanfodol wedi helpu pobl ifanc i ddeall eu hawliau, datblygu eu llais a chymryd rhan yn hyderus yn eu cymunedau a chymdeithas ehangach.

Mae ein hymgysylltiad wedi dangos bod pobl ifanc am gymryd rhan weithredol wrth lunio gwasanaethau, cyfleoedd a phenderfyniadau. Mewn ymateb, byddwn yn

cryfhau cyd-gynhyrchu, cyfranogiad a llais pobl ifanc trwy gydol gweithrediad y strategaeth hon. Bydd pobl ifanc yn helpu i lywio blaenoriaethau, dylanwadu ar ddatblygu gwasanaethau, cyfrannu at werthuso a chwarae rôl weithredol wrth lunio dyfodol gwaith ieuenctid yng Ngheredigion.

Trwy fabwysiadu dull sy'n seiliedig ar hawliau, ein nod yw sicrhau y gall pob person ifanc, waeth beth fo'u cefndir, hunaniaeth neu amgylchiadau, gael mynediad at gyfleoedd, goresgyn rhwystrau a gwireddu eu potensial.

**Egwyddorion trawsbynciol**

Bydd yr egwyddorion canlynol yn sail i bob agwedd ar ddarparu gwaith ieuenctid yng Ngheredigion trwy gydol oes y strategaeth hon. Maent yn adlewyrchu lleisiau pobl ifanc, cryfderau ein cymunedau a'n hymrwymiad i ddarparu gwaith ieuenctid o safon uchel sy'n hygyrch, cynhwysol ac ymatebol i anghenion lleol.

*Y Gymraeg a hunaniaeth Gymraeg*

Mae'r Gymraeg yn ganolog i hunaniaeth, diwylliant a chymunedau Ceredigion. Mae gan waith ieuenctid rôl unigryw i'w chwarae o ran rhoi cyfleoedd i bobl ifanc ddefnyddio'r Gymraeg yn hyderus mewn lleoliadau cymdeithasol, anffurfiol a chymunedol. Trwy gydol y strategaeth hon, byddwn yn hybu cyfleoedd dwyieithog a chyfrwng Cymraeg, yn dathlu diwylliant a threftadaeth leol, ac yn cefnogi pobl ifanc i gryfhau eu hymdeimlad o berthyn, hunaniaeth a chysylltiad â lle.

*Ansawdd a gwelliant parhaus*

Rydym wedi ymrwymo i ddarparu gwaith ieuenctid o safon uchel sy'n seiliedig ar dystiolaeth, yn fyfyriol ac yn gwella'n barhaus. Byddwn yn defnyddio data, gwerthuso, ymchwil ac adborth gan bobl ifanc a phartneriaid i ddeall angen, gwella ymarfer a dangos effaith, gan sicrhau bod pobl ifanc yn parhau i gael y gefnogaeth a'r cyfleoedd gorau posibl.

*Gwaith ieuenctid digidol*

Mae technoleg ddigidol yn creu cyfleoedd pwysig ar gyfer cyfathrebu, cyfranogi, dysgu ac ymgysylltu. Byddwn yn parhau i ddatblygu dulliau gwaith ieuenctid digidol sy'n ategu darpariaeth wyneb yn wyneb, gan gydnabod a mynd i'r afael â'r rhwystrau a brofir gan bobl ifanc sy'n cael eu heffeithio gan allgáu digidol.

*Cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant*

Credwn y dylai pob person ifanc gael mynediad cyfartal at gyfleoedd gwaith ieuenctid o safon uchel waeth beth fo'u cefndir, hunaniaeth, iaith, gallu, lleoliad neu amgylchiadau. Byddwn yn gweithio i geisio nodi a lleihau rhwystrau i gyfranogiad a sicrhau bod gwasanaethau'n parhau i fod yn gynhwysol, yn groesawgar ac yn ymatebol i anghenion amrywiol pobl ifanc ar draws Ceredigion.

*Partneriaeth a chydweithredu cymunedol*

Mae gwaith ieuenctid ar ei gryfaf pan gaiff ei gyflwyno trwy bartneriaeth. Byddwn yn parhau i gydweithio ag ysgolion, cymunedau, sefydliadau gwirfoddol, gwasanaethau cyhoeddus, cyflogwyr, sefydliadau diwylliannol, partneriaid Cymraeg a'r bobl ifanc eu hunain i greu cyfleoedd a gwella canlyniadau i bobl ifanc ar draws y sir.

## 1.2 Cyd-destun Statudol a Fframwaith Cenedlaethol

**Dyletswydd statudol newydd ar gyfer gwaith ieuenctid**

*Beth mae Llywodraeth Cymru yn ei ddweud*

O fis Ebrill 2026 ymlaen, mae gan awdurdodau lleol ddyletswydd statudol i sicrhau bod cyfleoedd gwaith ieuenctid yn cael eu darparu i bobl ifanc 11-25 oed. Mae'r Cyfarwyddydau Gwaith Ieuenctid yn sefydlu fframwaith cenedlaethol cryfach sy'n rhoi gwaith ieuenctid o fewn system glir o gynllunio, cyflawni, atebolrwydd a gwelliant parhaus.

Mae'r Cyfarwyddydau'n atgyfnerthu pwysigrwydd gwaith ieuenctid fel dull gweithredu gwirfoddol, addysgol a seiliedig ar berthnasoedd sy'n cefnogi datblygiad personol, cymdeithasol ac emosiynol, llesiant, cyfranogiad a chynnydd pobl ifanc.

*Beth mae hyn yn ei olygu yng Ngheredigion*

Fel awdurdod lleol, rhaid i ni sicrhau bod gwaith ieuenctid yn:

1. Hygyrch a chynhwysol.
2. Ymateb i anghenion lleol.
3. Wedi'i lywio gan safbwyntiau a phrofiadau pobl ifanc.
4. Wedi'i ddarparu trwy ystod o ddulliau a lleoliadau.
5. Wedi'i gynllunio'n strategol a'i fonitro'n effeithiol.
6. Wedi'i gefnogi gan bartneriaethau a threfniadau llywodraethu cryf.

*Beth rydym yn ei wneud yng Ngheredigion*

Mae'r strategaeth hon yn darparu'r fframwaith ar gyfer cyflawni ein cyfrifoldebau statudol, gan ymateb i'r cyfleoedd a'r heriau unigryw sydd gan bobl ifanc sy'n byw yng Ngheredigion.

**Safonau Gwaith Ieuenctid Cenedlaethol**

*Beth mae Llywodraeth Cymru yn ei ddweud*

Mae'r Safonau Gwaith Ieuenctid Cenedlaethol yn darparu fframwaith cyffredin ar gyfer ansawdd, cysondeb a gwelliant parhaus ar draws gwaith ieuenctid yng Nghymru.

Mae'r safonau'n rhoi pobl ifanc wrth wraidd gwaith ieuenctid ac yn darparu disgwyliadau sy'n ymwneud â'r canlynol:

- Cyfranogiad a llais.
- Cynhwysiant a hygyrchedd.
- Diogelu a llesiant.
- Dysgu a datblygu.
- Arweinyddiaeth a llywodraethu.
- Datblygu'r gweithlu.
- Sicrhau ansawdd a gwella.

*Beth mae hyn yn ei olygu yng Ngheredigion*

Bydd y Safonau Gwaith Ieuenctid Cenedlaethol yn llywio sut rydym yn cynllunio, cyflawni, monitro a gwerthuso gwaith ieuenctid ar draws y sir.

Byddant yn helpu i sicrhau bod pobl ifanc yn cael profiadau o safon uchel waeth ble maen nhw'n byw neu sut maen nhw'n cael mynediad at gyfleoedd gwaith ieuenctid.

*Beth rydym yn ei wneud yng Ngheredigion*

Byddwn yn defnyddio'r Safonau Gwaith Ieuenctid Cenedlaethol i gefnogi:

- Gwelliant parhaus.
- Datblygu'r gweithlu.
- Hunanasesu a gwerthuso.
- Sicrhau ansawdd.
- Mesur effaith.
- Cynllunio strategol.

**Hawliau a chyfranogiad plant**

*Beth mae Llywodraeth Cymru yn ei ddweud*

Mae'r fframwaith statudol wedi'i ategu gan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, yn enwedig hawl pobl ifanc i fynegi eu barn a dylanwadu ar y penderfyniadau sy'n effeithio arnynt.

Dylai cyfranogiad fod yn ystyrlon, yn gynhwysol, yn barhaus ac wedi'i gefnogi gan fecanweithiau adborth effeithiol.

*Beth mae hyn yn ei olygu yng Ngheredigion*

Dylai pob person ifanc yng Ngheredigion allu cael mynediad at gynnig gwaith ieuenctid sy'n wirfoddol, yn gynhwysol, yn ddwyieithog, yn seiliedig ar berthnasoedd ac yn ymatebol i'w hanghenion, eu diddordebau a'u dyheadau. Ni ddylid ymgynghori â phobl ifanc yn unig. Dylent fod yn bartneriaid gweithredol wrth lunio gwasanaethau, gweithgareddau, cyfleoedd a phenderfyniadau.

*Beth rydym yn ei wneud yng Ngheredigion*

Byddwn yn parhau i gryfhau cyfranogiad trwy'r canlynol:

- Cyngor Ieuenctid Ceredigion.
- Grwpiau cyfranogi yn yr ysgol.
- Cyfleoedd ymgysylltu cymunedol.
- Llwyfannau ymgysylltu digidol.
- Cyfranogiad wrth gynllunio a gwerthuso gwasanaethau.
- Adroddiad blynyddol "Dywedoch Chi, Gwnaethom Ni".

**Y Gymraeg a Chymraeg 2050**

*Beth mae Llywodraeth Cymru yn ei ddweud*

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod gwaith ieuenctid fel cyfrannwr pwysig at Gymraeg 2050 a'r uchelgais ehangach i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg o fewn cymunedau a bywyd bob dydd.

Mae gwaith ieuenctid yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i bobl ifanc ddefnyddio'r Gymraeg yn naturiol trwy gyfeillgarwch, gweithgareddau, gwirfoddoli, diwylliant a chyfranogiad cymunedol.

*Beth mae hyn yn ei olygu yng Ngheredigion*

Fel un o siroedd cryfaf Cymru o ran y Gymraeg, rydym yn cydnabod y rôl bwysig y mae gwaith ieuenctid yn ei chwarae o ran cefnogi'r defnydd o'r iaith, hunaniaeth ddiwylliannol a pherthyn.

*Beth rydym yn ei wneud yng Ngheredigion*

Byddwn yn:

- Cryfhau darpariaeth ddwyieithog a chyfrwng Cymraeg.
- Cynyddu cyfleoedd i bobl ifanc ddefnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol ac yn anffurfiol.
- Meithrin hyder a sgiliau'r gweithlu.
- Hyrwyddo diwylliant, treftadaeth a hunaniaeth leol.
- Cysoni'r ddarpariaeth â Chymraeg 2050, Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg a Strategaeth Hybu'r Gymraeg Ceredigion.

**Gwaith ieuenctid digidol**

*Beth mae Llywodraeth Cymru yn ei ddweud*

Mae polisi gwaith ieuenctid cenedlaethol yn cydnabod gwaith ieuenctid digidol fel rhan bwysig o ymarfer gwaith ieuenctid modern.

Gall dulliau digidol wella mynediad, cyfathrebu, cyfranogiad, dysgu a chymorth ac ar yr un pryd ategu perthnasoedd gwaith ieuenctid wyneb yn wyneb.

*Beth mae hyn yn ei olygu yng Ngheredigion*

Mae ymgysylltu digidol yn gynyddol bwysig i bobl ifanc ar draws y sir. Fodd bynnag, mae tystiolaeth hefyd yn dangos yr heriau parhaus sy'n ymwneud â chysylltedd digidol, signal ffonau symudol a sgiliau digidol, yn enwedig o fewn cymunedau gwledig. Gall pobl ifanc sy'n byw mewn ardaloedd gwledig brofi rhwystrau ychwanegol a achosir gan gysylltedd gwael ac allgáu digidol.

*Beth rydym yn ei wneud yng Ngheredigion*

Byddwn yn:

- Parhau i ddatblygu dulliau gwaith ieuenctid digidol.
- Cryfhau cyfleoedd cyfranogiad digidol.
- Gwella cyfathrebu trwy lwyfannau digidol ieuenctid gyfeillgar.
- Hyrwyddo sgiliau digidol a diogelwch ar-lein.
- Gweithio gyda phartneriaid i leihau allgáu digidol lle bo modd.

**Cynllunio Strategol Pum Mlynedd ac Adroddiadau Blynyddol**

*Beth mae Llywodraeth Cymru yn ei ddweud*

Rhaid i awdurdodau lleol gynhyrchu Cynllun Strategol Gwaith Ieuenctid pum mlynedd wedi'i ategu gan dystiolaeth o angen, ymgysylltiad â phobl ifanc a phartneriaid, a blaenoriaethau clir ar gyfer gwella.

Rhaid i awdurdodau hefyd adolygu cynnydd yn rheolaidd a darparu adroddiadau priodol ar gyflawni ac effaith.

*Beth mae hyn yn ei olygu yng Ngheredigion*

Rhaid i gynllunio gael ei lywio gan dystiolaeth, ei lunio gan bobl ifanc a bod yn ymatebol i anghenion newidiol.

*Beth rydym yn ei wneud yng Ngheredigion*

Mae'r strategaeth hon yn sefydlu ein blaenoriaethau cyffredin ar gyfer 2027-2032 a chaiff ei chefnogi trwy:

- Adolygiad ac adroddiad blynyddol.
- Gweithgareddau ymgysylltu parhaus.
- Monitro perfformiad.
- Hunanasesu a gwerthuso.
- Prosesau adolygu partneriaethau.

DRAFT

## Disgwyliadau partneriaeth

*Beth mae Llywodraeth Cymru yn ei ddweud*

Mae Cyfarwyddydau Gwaith Ieuenctid yn datgan yn glir y dylid cyflawni gwaith ieuenctid trwy gydweithio rhwng gwasanaethau statudol, sefydliadau gwirfoddol, grwpiau cymunedol a phartneriaid ehangach.

*Beth mae hyn yn ei olygu yng Ngheredigion*

Ni all unrhyw sefydliad unigol ateb holl anghenion pobl ifanc. Mae gweithio mewn partneriaeth yn hanfodol i ddarparu cynnig gwaith ieuenctid eang, hygyrch a chynaliadwy.

*Beth rydym yn ei wneud yng Ngheredigion*

Byddwn yn parhau i gryfhau trefniadau partneriaeth trwy:

- Fforwm Darparwyr Plant a Phobl Ifanc.
- Cydweithio amlasiantaethol.
- Partneriaethau cymunedol.
- Rhwydweithiau rhanbarthol a chenedlaethol.
- Ymgysylltu â'r sector gwirfoddol.
- Cynllunio, dysgu a gwerthuso ar y cyd.

## Crynodeb

Mae Cyfarwyddydau Gwaith Ieuenctid 2026 yn sefydlu disgwyliad clir y dylai pob person ifanc gael mynediad at gyfleoedd gwaith ieuenctid cynhwysol, dwyieithog a chyfranogol o safon uchel.

Mae'r strategaeth hon yn amlinellu sut y bydd Ceredigion yn ymateb i'r her honno trwy weithio gyda phobl ifanc, cymunedau a phartneriaid i ddarparu cynnig gwaith ieuenctid hygyrch, sy'n seiliedig ar dystiolaeth ac yn gynaliadwy. Trwy'r Safonau Gwaith Ieuenctid Cenedlaethol, ymarfer sy'n seiliedig ar hawliau, hybu'r Gymraeg, arloesedd digidol a phartneriaethau cryf, byddwn yn parhau i gryfhau cyfraniad gwaith ieuenctid at lesiant, cyfranogiad a chyfleoedd i bobl ifanc ar draws Ceredigion yn y dyfodol.

DRAFT

# Rhan 2 – Deall Ein System Gwaith Ieuenctid Bresennol yng Ngheredigion

**Diben yr adran hon**

Mae'r adran hon yn amlinellu'r system gwaith ieuenctid bresennol yng Ngheredigion, gan gynnwys yr hyn sydd eisoes yn cael ei ddarparu, pwy sy'n ymgysylltu ar hyn o bryd, beth mae ein data yn ei ddweud wrthym, a'r hyn rydym wedi'i ddysgu o'r gwerthuso, gweithgarwch archwilio ac ymgysylltu diweddar.

Mae'n darparu'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer y chwe blaenoriaeth strategol a nodir yn Rhan 3. Mae'r blaenoriaethau hyn yn egluro'r hyn y byddwn yn ei ddiogelu, ei gryfhau a'i ddatblygu dros y pum mlynedd nesaf.

**System gwaith ieuenctid Ceredigion**

Caiff gwaith ieuenctid yng Ngheredigion ei ddarparu trwy system amrywiol a chydgysylltiedig o wasanaethau, sefydliadau, gwirfoddolwyr a chymunedau sy'n gweithio gyda'i gilydd i gefnogi pobl ifanc 11-25 oed.

Wrth wraidd y system hon mae Gwasanaeth Ieuenctid Ceredigion, gwasanaeth ieuenctid integredig y Cyngor Sir. Mae'r gwasanaeth yn darparu gwaith ieuenctid cyffredinol, wedi'i dargedu ac arbenigol trwy ysgolion, lleoliadau cymunedol, canolfannau ieuenctid, allgymorth, darpariaeth ffonau symudol, ymgysylltu digidol, hawliau a chyfranogiad plant, ymyrraeth gynnar, atal a chyfiawnder ieuenctid.

Mae model gwaith ieuenctid Ceredigion wedi'i ymgorffori o fewn strwythur Llesiant Gydol Oes ehangach y Cyngor, sy'n dwyn ynghyd gwaith ieuenctid, cymorth cynnar, ymgysylltu a datblygu ieuenctid, cyfiawnder ieuenctid, cymorth i deuluoedd, tai, addysg a gwasanaethau ataliol ehangach. Mae hyn yn cefnogi pontio llyfnach, yn lleihau dyblygu ac yn creu llwybrau cliriach i bobl ifanc a allai fod angen cymorth ychwanegol ar gamau gwahanol o'u bywydau.

Ar hyn o bryd, cyflwynir gwaith ieuenctid trwy gyfuniad o'r canlynol:

- Gwaith ieuenctid yn yr ysgol
- Clybiau ieuenctid cymunedol a darpariaeth mynediad agored
- Canolfannau ieuenctid a lleoliadau cymunedol
- Gwaith allgymorth a gwaith ieuenctid datgysylltiedig
- Gwaith ieuenctid symudol
- Rhaglenni cymorth wedi'i dargedu ac ymyrraeth gynnar
- Gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid ac atal
- Cyfranogiad, hawliau plant a chyfleoedd llais ieuenctid
- Gwirfoddoli, arweinyddiaeth a gweithredu cymdeithasol
- Gwaith ieuenctid digidol ac ymgysylltu ar-lein
- Darpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog

DRAFT

Ochr yn ochr â darpariaeth yr awdurdod lleol, mae sefydliadau gwirfoddol a chymunedol yn gwneud cyfraniad pwysig at y cynnig gwaith ieuenctid ar draws Ceredigion. Mae'r sefydliadau hyn yn ymestyn cyrhaeddiad, amrywiaeth a chynaliadwyedd y cyfleoedd sydd ar gael i bobl ifanc, yn enwedig mewn cymunedau gwledig a thrwy ddarpariaeth arbenigol.

**Cyrhaeddiad a chyfranogiad presennol**

Yn ystod 2025-26, cyrhaeddodd Gwasanaeth Ieuenctid Ceredigion **2,141 o bobl ifanc unigol** trwy ddarpariaeth gwaith ieuenctid cofrestredig. Roedd hyn yn cynrychioli tua **14.3%** o'r boblogaeth 11-25 oed amcangyfrifedig a gofnodwyd yn natganiad Llywodraeth Cymru.

Cofnododd y gwasanaeth **18,444 o gysylltiadau unigol** â phobl ifanc sydd wedi cofrestru gyda REACH yn ystod 2025-26, ochr yn ochr ag **857 o gysylltiadau dienw.** Mae hyn yn dangos graddfa'r ymgysylltu rheolaidd a phwysigrwydd cyfleoedd gwaith ieuenctid mynediad agored, allgymorth ac anffurfiol.

Proffil oedran y bobl ifanc a gyrhaeddwyd oedd:

- **717** o bobl ifanc 11 – 13 oed
- **857** o bobl ifanc 14 – 16 oed
- **334** o bobl ifanc 17 – 19 oed
- **233** o bobl ifanc 20 – 25 oed

Roedd dysgu achrededig a chydnabyddedig hefyd yn rhan o'r cynnig gwaith ieuenctid. Yn 2025-26, enillodd 36 o bobl ifanc achrediadau a gydnabyddir yn genedlaethol, ac roedd 187 o bobl ifanc wedi ennill gwobrau a gydnabyddir yn lleol trwy ddarpariaeth gwaith ieuenctid.

Cofnododd datganiad y gweithlu 2025-26 fod 28 o staff cyflawni gwaith ieuenctid, sy'n cyfateb i 21.83 o swyddi amser llawn. O'r rhain, roedd gan 23 o staff gymhwyster JNC Lefel 2 ac uwch, gyda 5 aelod arall o staff heb gymhwyso eto i Lefel 2 eto ond yn cael eu hyfforddi.

Cofnododd datganiad Llywodraeth Cymru ddarpariaeth ar draws amrywiaeth o leoliadau hefyd, gan gynnwys:

- **4 canolfan ieuenctid**
- **4 clwb ieuenctid**
- **7 lleoliad ysgol**
- **6 lleoliad ieuenctid a gwybodaeth dros dro**
- **3 thîm datgysylltiedig neu allgymorth**

**Beth mae ein data ymgysylltu yn ei ddangos**

Fel rhan o'r gwaith o ddatblygu'r strategaeth hon, derbyniodd arolwg arbennig ar gyfer pobl ifanc **195 o ymatebion.** Mae'r ymatebion yn rhoi gwybodaeth bwysig i ni

ar ymgysylltu, mynediad, cyfathrebu, y Gymraeg, dewisiadau digidol a blaenoriaethau pobl ifanc ar hyn o bryd.

O'r rhai a ymatebodd, **dywedodd 153 o bobl ifanc eu bod yn cael cysylltiad rheolaidd â gweithiwr ieuenctid,** a **dywedodd 42 nad oeddent yn cael cysylltiad rheolaidd.**

Pan ofynnwyd iddynt a ydynt yn mynychu clybiau ieuenctid neu weithgareddau ieuenctid ar hyn o bryd, **dewisodd 76 o bobl ifanc "Ydw"** a **dewisodd 97 "Nac ydw",** gydag ymatebion testun rhydd ychwanegol sy'n dangos bod rhai pobl ifanc yn cael mynediad i deithiau, clybiau ar ôl ysgol neu weithgareddau penodol yn hytrach na darpariaeth clwb ieuenctid rheolaidd.

Dangosodd yr arolwg bwysigrwydd darpariaeth leol, hyblyg a rheolaidd hefyd. Pan ofynnwyd iddynt sawl diwrnod o'r wythnos y dylai clybiau ieuenctid fod ar agor roedd:

- **65** o bobl ifanc wedi dweud **2 ddiwrnod**
- **56** o bobl ifanc wedi dweud **3 diwrnod**
- **40** o bobl ifanc wedi dweud **1 diwrnod**
- **34** o bobl ifanc wedi dweud **mwy**

Roedd mynediad a theithio yn themâu clir. Pan ofynnwyd iddynt pa mor bell y byddent yn teithio ar gyfer gweithgareddau ieuenctid roedd:

- **94** o bobl ifanc wedi dweud **llai na 10 munud**
- **58** o bobl ifanc wedi dweud **20 munud**
- **43** o bobl ifanc wedi dweud **30 munud neu fwy**

Ymhlith y rhwystrau mwyaf cyffredin i fynychu gweithgareddau ieuenctid roedd:

- **52** o ymatebion wedi bod dim diddordeb ganddynt
- **19** o ymatebion wedi dweud eu bod nhw ddim yn gwybod beth oedd ar gael
- **18** o ymatebion wedi dweud ei bod hi'n rhy bell i deithio
- **15** o ymatebion wedi dweud bod yr amseroedd ddim yn addas iddyn nhw

Roedd pobl ifanc wedi nodi'r canlynol fel y rhai pwysicaf yn eu hardal leol. Roedd:

- **149** wedi dewis mannau diogel i dreulio amser
- **80** wedi dewis cymorth iechyd meddwl
- **78** wedi dewis chwaraeon a ffitrwydd
- **77** wedi dewis swyddi a chyfleoedd hyfforddi
- **69** wedi dewis gweithgareddau creadigol megis celf, cerddoriaeth a drama

Roedd pobl ifanc hefyd wedi mynegi diddordeb cryf mewn gweithgareddau a phrofiadau. Roedd:

DRAFT

- **149** o bobl ifanc wedi dweud yr hoffent gael mwy o deithiau a phrofiadau y tu allan i Geredigion
- **187** wedi dweud y dylai clybiau ieuenctid gael mannau ymlacio gyda Wi-Fi
- **169** wedi dweud eu bod am gael mwy o weithgareddau awyr agored megis heicio, diwrnodau ar y traeth neu dwrnameintiau chwaraeon

Mae cyfathrebu digidol yn fwyfwy pwysig. Dywedodd pobl ifanc y dylid rhannu gwybodaeth trwy:

- **Ysgolion –** 112 o ymatebion
- **Cyfryngau cymdeithasol –** 94 o ymatebion
- **Neges destun –** 87 o ymatebion

Y llwyfannau cyfryngau cymdeithasol a ddefnyddiwyd amlaf gan ymatebwyr oedd:

- **TikTok –** 123 o ymatebion
- **Snapchat –** 120 o ymatebion
- **Instagram** – 98 o ymatebion
- **WhatsApp –** 91 o ymatebion
- **YouTube –** 79 o ymatebion

Mae'r dystiolaeth hon yn cefnogi'r angen am gynnig gwaith ieuenctid sy'n lleol, gweladwy, hygyrch, wedi'i gysylltu'n ddigidol ac wedi'i lunio gan farn pobl ifanc.

**Y Gymraeg, hunaniaeth a gwaith ieuenctid dwyieithog**

Mae iaith a diwylliant Cymru yn parhau i fod yn ganolog i system gwaith ieuenctid Ceredigion. O fewn yr arolwg pobl ifanc, **dywedodd 71 o bobl ifanc eu bod yn siarad Cymraeg, dywedodd 68 eu bod yn siarad Cymraeg weithiau,** a **dywedodd 56 nad ydynt yn siarad Cymraeg.**

Pan ofynnwyd pa mor bwysig yw iaith a diwylliant Cymru mewn gweithgareddau ieuenctid roedd:

- **31** o bobl ifanc wedi dweud eu bod **yn bwysig iawn**
- **98** o bobl ifanc wedi dweud eu bod **yn eithaf pwysig**
- **66** o bobl ifanc wedi dweud **ddim yn bwysig**

Mae hyn yn awgrymu y dylai darpariaeth Gymraeg barhau i gael ei hymgorffori fel rhan weladwy a naturiol o waith ieuenctid, gan gydnabod yr un pryd pwysigrwydd dewis, hyder ac amgylcheddau dwyieithog cynhwysol.

Mae gweithgarwch gwerthuso diweddar hefyd wedi tynnu sylw at fuddsoddiad parhaus mewn datblygu'r Gymraeg, gan gynnwys cyfleoedd dysgu Cymraeg i staff, ymgysylltu digidol dwyieithog, cyfranogiad mewn rhwydweithiau Cymraeg a phrosiectau sy'n hyrwyddo diwylliant a hunaniaeth Cymru.

DRAFT

**Tlodi, anghydraddoldeb ac anfantais wledig**

Er bod Ceredigion yn aml yn cael ei hystyried yn sir wledig gyfoethog, mae tystiolaeth leol yn dangos natur gudd tlodi gwledig ac anghydraddoldeb. Yn aml, mae tlodi mewn cymunedau gwledig yn llai gweladwy nag mewn ardaloedd trefol a gellir ei brofi trwy gyfuniad o incwm isel, pwysau tai, costau trafnidiaeth, allgáu digidol a mynediad cyfyngedig at wasanaethau.

Mae tystiolaeth ddiweddar yn dangos yr amcangyfrifi bod tua 34.8% o aelwydydd yn byw mewn tlodi incwm cymharol, tra bod bron 28% o blant yn byw mewn tlodi ar ôl costau tai. Mae amddifadedd materol wedi cynyddu ac yn uwch na chyfartaledd Cymru erbyn hyn.

Mae mynediad at wasanaethau yn parhau i fod yn her sylweddol. Mae Ceredigion ymhlith yr awdurdodau lleol mwyaf difreintiedig yng Nghymru o ran mynediad at wasanaethau, gan adlewyrchu realiti sir wledig fawr lle gall trafnidiaeth, pellter a chysylltedd effeithio ar allu pobl ifanc i gael mynediad at gyfleoedd a chymorth.

Mae fforddiadwyedd tai hefyd yn parhau i fod yn bryder cynyddol i bobl ifanc a theuluoedd. Mae'r cynnydd mewn prisiau tai, costau rhentu uwch ac enillion is na'r cyfartaledd yn creu pwysau sylweddol a all ddylanwadu ar lesiant, dyheadau yn y dyfodol a phenderfyniadau ynghylch aros yn y sir neu adael.

Mae'r heriau hyn yn dylanwadu'n uniongyrchol ar y blaenoriaethau a nodwyd yn y strategaeth hon ac yn atgyfnerthu'r rôl bwysig y mae gwaith ieuenctid yn ei chwarae o ran lleihau rhwystrau, cryfhau gwydnwch a helpu pobl ifanc i gael mynediad at gyfleoedd waeth ble maen nhw'n byw.

**Beth gafodd ei ddysgu o ddarpariaeth 2025-26**

Mae gwerthusiad Grant Cymorth Ieuenctid 2025-26 yn dangos bod Gwasanaeth Ieuenctid Ceredigion wedi darparu cynnig gwaith ieuenctid eang a chynyddol integredig ar draws ysgolion, cymunedau, llwyfannau digidol a llwybrau cymorth wedi'i dargedu.

Rhwng Ionawr a Mawrth 2026 roedd y gwasanaeth wedi ymgysylltu â **dros 400 o bobl ifanc** ar ddatblygu'r cynllun pum mlynedd trwy arolygon, clybiau ieuenctid, ysgolion, allgymorth cymunedol ac ymgysylltu wyneb yn wyneb. Derbyniodd y gwasanaeth **30 o ymatebion** hefyd i'w arolwg partneriaid manwl.

Mae gwaith ieuenctid mewn ysgolion yn parhau i fod yn rhan bwysig o'r cynnig lleol. Yn ystod y cyfnod adrodd, roedd gweithwyr ieuenctid mewn ysgolion yn cefnogi **104 o bobl ifanc,** gyda **5 clwb ar ôl ysgol** ac **8 clwb amser cinio** yn gweithredu ar draws gweithgareddau gwahanol. Roedd tua **30 o bobl ifanc** yn mynychu'r clybiau hyn mewn ysgolion bob wythnos.

Roedd gwaith ieuenctid cymunedol hefyd wedi parhau i ddarparu cyfleoedd rheolaidd ar draws y sir, gyda chyfartaledd o **60 o bobl ifanc yn mynychu clybiau**

**ieuenctid bob wythnos ar draws 4 lleoliad.** Roedd y gwerthusiad hefyd wedi nodi clwb ieuenctid ychwanegol yn ardal Llanbedr Pont Steffan a datblygu cyfleoedd newydd yn y gymuned.

Roedd gwaith wedi'i dargedu ac ataliol yn parhau'n ganolog i'r gwasanaeth. Yn ystod y cyfnod adrodd, cefnogwyd **154 o bobl ifanc 16-25 oed** gan y Tîm Gwaith Ieuenctid Cymunedol ac Atal, a chofnododd Project Inspire **276 o gysylltiadau** ers mis Hydref.

Ehangodd darpariaeth symudol a darpariaeth gwyliau gyrhaeddiad y gwasanaeth hefyd. Roedd darpariaeth symudol wedi ymgysylltu â **126 o bobl ifanc,** tra bod darpariaeth gwyliau strwythuredig wedi'i chyflwyno dros **17 diwrnod** ar gyfer **197 o bobl ifanc rhwng 11 a 25 oed.** Roedd **216 o bobl ifanc** pellach wedi cymryd rhan mewn gweithgareddau hanner tymor, gan gynnwys beicio mynydd, teithiau addysgol, bowlio, tag laser, agoriadau clybiau ieuenctid a chyfleoedd preswyl.

Roedd y gwasanaeth hefyd wedi cefnogi darpariaeth ategol ehangach, gan gynnwys Bwyd a Hwyl a oedd wedi ymgysylltu â **231 o blant** a **thros 200 o deuluoedd** yn ystod haf 2025.

Roedd gweithgareddau llesiant ac atal yn cynnwys **108 o becynnau llesiant** a gafodd eu dosbarthu dros y Nadolig, **10 sesiwn ataliol** oedd wedi ymgysylltu â **52 o bobl ifanc** sydd mewn perygl o ymddygiad gwrthgymdeithasol, a **59 o bobl ifanc 11-16 oed** oedd wedi cymryd rhan mewn prosiectau ymyrraeth yn canolbwyntio ar gamfanteisio, llinellau cyffuriau, perthnasoedd iach, diogelwch ar-lein, atal llosgi bwriadol a dysgu yn seiliedig ar realiti rhithwir.

**Ymyrraeth gynnar, Fframwaith Ymgysylltiad a Chynnydd Ieuenctid ac atal**

Mae system gwaith ieuenctid Ceredigion yn chwarae rôl bwysig mewn adnabod yn gynnar, atal a chefnogi cynnydd. Mae'r gwaith hwn yn cyfateb yn agos â Glasbrint Cyfiawnder Ieuenctid Llywodraeth Cymru ac egwyddorion Rhoi Plant yn Gyntaf, gan gydnabod gwaith ieuenctid fel cyfrannwr allweddol at atal, dargyfeirio a chanlyniadau cadarnhaol i blant a phobl ifanc.

Mae gwerthusiad y Grant Cymorth Ieuenctid yn dangos bod **340 o bobl ifanc** wedi cael eu cyfeirio at gyfarfodydd atgyfeirio a neilltuo wythnosol yn ystod 2025-26, a bod pobl ifanc wedi cael eu paru gyda gweithwyr ieuenctid neu fentoriaid i gael cymorth.

Ar gyfer pobl ifanc 11-16 oed, roedd y gwerthusiad wedi nodi bod cludiant i gyflogaeth, contractau diogel a rhwystrau iechyd meddwl a chorfforol yn ffactorau allweddol sy'n dylanwadu ar y risg o fod yn NEET. Adroddodd hefyd fod **57 o bobl ifanc a nodwyd fel rhai oedd mewn perygl o fod yn NEET wedi cael eu cefnogi** trwy drefniadau adnabod cynnar a phartneriaeth Fframwaith Ymgysylltiad a Chynnydd Ieuenctid ehangach.

DRAFT

I bobl ifanc 16-18 oed, roedd y gwerthusiad wedi nodi bod mynediad at drafnidiaeth ac argaeledd trafnidiaeth, cyfleoedd cyflogaeth priodol, llwybrau dilyniant amser llawn a pharhaol, profiad gwaith a chyfleoedd hyfforddi yn ffactorau dylanwadol allweddol. Dangosodd data ciplun Gyrfa Cymru y bobl ifanc oedd yng nghategorïau Haen 1, Haen 2 a Haen 3 trwy gydol y flwyddyn, gan atgyfnerthu pwysigrwydd cymorth parhaus ar gyfer atal, olrhain a chynnydd.

Mae'r gwerthusiad hefyd yn dangos, rhwng Hydref 2025 a Mawrth 2026, fod **32 o bobl ifanc wedi cael eu helpu i ddychwelyd i addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant** gan y gwasanaeth.

Mae atal digartrefedd ymhlith pobl ifanc hefyd yn rhan o waith ieuenctid ehangach a'r Model Gydol Oes. Adroddodd y gwerthusiad fod gan yr awdurdod lleol system adnabod yn gynnar ar gyfer risg o fod yn digartref, gyda gwaith ieuenctid yn cyfrannu trwy weithdai ataliol, paneli asesu, sgiliau bywyd, rheoli arian, cymorth cyflogaeth a phrosesau Proffil Asesu Bregusrwydd. Cynyddodd y cyflwyniadau a gofnodwyd yn yr adroddiad o **37** yn y cyfnod adrodd cyntaf i **72** yn yr ail gyfnod adrodd, gan ddangos pwysigrwydd cymorth cynnar ac atal wedi'i gydgysylltu.

**Gwaith ieuenctid digidol a chyfathrebu**

Mae gwerthusiad 2025-26 yn dangos bod gwaith ieuenctid digidol yn rhan gynyddol bwysig o gynnig gwaith ieuenctid Ceredigion erbyn hyn.

Mae'r gwasanaeth wedi penodi swyddog digidol a marchnata trwy gymorth Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU, wedi datblygu gwefan bwrpasol dan arweiniad ieuenctid, wedi lansio cyfrif TikTok ac wedi cryfhau cyfathrebu ar-lein i wella ymwybyddiaeth pobl ifanc o wasanaethau, gweithgareddau a chyfleoedd. Mae tystiolaeth gynnar yn dangos bod ymgysylltu digidol dan arweiniad ieuenctid eisoes yn helpu'r gwasanaeth i gyrraedd pobl ifanc mewn ffyrdd newydd ac ystyrlon.

Rhwng Chwefror a Mai 2026, cynhyrchodd llwyfan TikTok Ieuenctid Ceredigion fwy na 47,500 o ymweliadau, cyrhaeddodd bron 39,500 o gyfrifon, a denodd gynulleidfa gynyddol o 172 o ddilynwyr. Mae mewnwelediadau cynulleidfa yn dangos ymgysylltiad arbennig o gryf gan grwpiau oedran iau, gyda dros 26% o ddilynwyr rhwng 18 a 24 oed.

Mae data perfformiad yn awgrymu bod cynnwys digidol yn aml yn cyrraedd cynulleidfaoedd llawer mwy na sianeli cyfryngau cymdeithasol traddodiadol. Roedd rhai fideos wedi cynhyrchu rhwng 3,200 a 4,000 o ymweliadau o'i gymharu â chyfartaledd o tua 500 o ymweliadau ar gyfer cynnwys tebyg ar Facebook.

Mae'r cynnwys mwyaf llwyddiannus wedi gweld pobl ifanc yn cymryd rhan mewn digwyddiadau cymunedol, gweithgareddau llesiant, ymgysylltu democrataidd ac ymgyrchoedd lleol. Mae hyn yn dangos bod pobl ifanc yn ymgysylltu â chynnwys dilys, sy'n berthnasol yn lleol a dan arweiniad ieuenctid sy'n adlewyrchu eu diddordebau, profiadau a chymunedau.

Wrth i ymgysylltu digidol barhau i ddatblygu, byddwn yn gweithio ochr yn ochr â phobl ifanc a phartneriaid i gryfhau cynnwys dwyieithog, cynyddu cyfleoedd ar gyfer creu cynnwys dan arweiniad ieuenctid a sicrhau bod gwaith ieuenctid digidol yn ategu, yn hytrach na disodli, perthnasoedd gwaith ieuenctid wyneb yn wyneb.

Mae gwerthusiad 2025-2026 hefyd yn tynnu sylw at bartneriaeth barhaus â ProMo Cymru, gan gynnwys mentrau gwaith ieuenctid digidol, gwaith Life Online ar draws ardal Dyfed-Powys, a hyfforddiant i gryfhau hyder proffesiynol mewn gwaith ieuenctid digidol. Roedd mwy na **40 o randdeiliaid** wedi cymryd rhan yn hyfforddiant TikTok 101 a oedd yn canolbwyntio ar ymgysylltu, mythau TikTok a sut y gellir defnyddio TikTok i gyrraedd pobl ifanc.

Mae'r arolwg pobl ifanc yn cefnogi'r cyfeiriad hwn gyda TikTok, Snapchat, Instagram, WhatsApp a YouTube wedi'u nodi fel y llwyfannau a ddefnyddir amlaf gan ymatebwyr.

Er bod ymgysylltu digidol yn creu cyfleoedd sylweddol ar gyfer cymryd rhan, cyfathrebu a mynediad at gymorth, mae tystiolaeth yn dangos anghydraddoldebau digidol parhaus mewn rhai ardaloedd yng Ngheredigion. Mae darpariaeth band eang ffibr llawn yn parhau i fod yn is na chyfartaledd Cymru, mae mannau gwan signal ffôn symudol yn parhau i fod ymhlith yr uchaf yng Nghymru, ac nid oes gan un rhan o dair o drigolion y sgiliau digidol y mae eu hangen i gymryd rhan lawn mewn cymdeithas gynyddol ddigidol. Gall yr heriau hyn gael effaith anghymesur ar bobl ifanc a theuluoedd sy'n byw mewn cymunedau gwledig.

Mae'r dystiolaeth hon yn atgyfnerthu'r angen i waith ieuenctid digidol wella, yn hytrach na disodli, perthnasoedd gwaith ieuenctid wyneb yn wyneb.

### Cyfraniad partneriaethau a'r sector gwirfoddol

Mae gweithio mewn partneriaeth eisoes yn gryfder mawr o fewn system gwaith ieuenctid Ceredigion.

Mae cynllun gwaith y Grant Cymorth Ieuenctid yn nodi bod Gwasanaeth Ieuenctid Ceredigion yn arwain Fforwm Darparwyr Plant a Phobl Ifanc sy'n dwyn ynghyd **dros 80 o sefydliadau** i gydlynu arferion gorau, rhannu gwybodaeth leol a nodi anghenion sy'n dod i'r amlwg.

Mae gwerthusiad 2025-26 yn tynnu sylw at y cydweithio cryf â sefydliadau ieuenctid gwirfoddol, ysgolion, grwpiau cymunedol, CAVO, ProMo Cymru, EYST, Ieuenctid Cymru, Area 43, rhwydweithiau Cymraeg, Partneriaeth Dyfodol Ni a phartneriaid lleol a rhanbarthol eraill.

Mae'r gwerthusiad hefyd yn nodi datblygiad Fframwaith Grantiau Gwaith Ieuenctid, lle cafodd **£50,000** ei ddyrannu i **chwe sefydliad gwirfoddol lleol** er mwyn cynyddu a chryfhau cyfleoedd i bobl ifanc. Dangosodd tystiolaeth canol llinell ymgysylltiad cryf, darpariaeth dan arweiniad ieuenctid, ymarfer cynhwysol ac effaith gynnar, ac

roedd hefyd wedi nodi cynaliadwyedd, trafnidiaeth, capasiti gwirfoddolwyr a chyllid fel heriau parhaus.

Mae'r dystiolaeth bartneriaeth hon yn cefnogi Blaenoriaeth 6 yn uniongyrchol sy'n canolbwyntio ar lywodraethu, cyd-berchnogaeth, rhwydweithiau partneriaeth a gweithredu ar y cyd.

**Y gweithlu, ansawdd a chynaliadwyedd**

Mae'r gweithlu presennol yn gryfder sylweddol, ond mae cynaliadwyedd yn parhau i fod yn risg allweddol.

Cofnododd datganiad y gweithlu Llywodraeth Cymru fod **28 o staff cyflawni gwaith ieuenctid,** gyda **21.83 o swyddi cyfwerth ag amser llawn.** Cofnododd hefyd fod **23 o staff yn meddu ar gymhwyster JNC Lefel 2 ac uwch,** a bod **5 o staff yn cael eu hyfforddi.**

Mae gwerthusiad o'r Grant Cymorth Ieuenctid yn dangos buddsoddiad parhaus mewn datblygu'r gweithlu, gan gynnwys staff sy'n cwblhau cymwysterau gwaith ieuenctid Lefel 2, staff sy'n dilyn cymwysterau Lefel 2 a Lefel 3, a staff sy'n symud ymlaen trwy lwybrau gradd gwaith ieuenctid.

Mae cynllun busnes 2026-27 yn nodi datblygiad y gweithlu, sicrhau ansawdd, goruchwylio, diogelu, diogelwch digidol, recriwtio, cadw staff, gwirfoddoli, lleoliadau a phrofiad gwaith fel blaenoriaethau allweddol ar gyfer y flwyddyn i ddod.

Mae'r cynllun busnes hefyd yn nodi risgiau pwysig, gan gynnwys gorddibyniaeth ar gyllid grant allanol, diffyg gweithwyr ieuenctid cymwys, allgáu digidol, llwybrau atal a chymorth cynnar anghyson, a phwysau cynaliadwyedd sy'n gysylltiedig ag adeiladau, lle a chyllid craidd.

Mae'r dystiolaeth hon yn cefnogi Blaenoriaeth 5 yn uniongyrchol sy'n canolbwyntio ar weithlu a rhwydwaith gwirfoddolwyr medrus, cynaliadwy a dwyieithog.

**Cryfderau cyfredol i adeiladu arnynt**

Mae'r dystiolaeth o 2025-26 yn dangos bod gan Geredigion sylfaen gryf ar gyfer y pum mlynedd nesaf.

Mae cryfderau presennol yn cynnwys:

- Gwasanaeth Ieuenctid dwyieithog ar draws y sir sy'n gweithio gyda phobl ifanc 11-25 oed.
- Rhwydweithiau cymunedol cryf, hunaniaeth ddiwylliannol, cymunedau Cymraeg ac asedau naturiol sy'n cefnogi llesiant, perthyn a chyfranogiad.
- Model Gydol Oes sy'n cefnogi ymyrraeth gynnar, atal a phontio llyfnach.
- Darpariaeth gwaith ieuenctid ar draws ysgolion, cymunedau, allgymorth, symudol, digidol a lleoliadau wedi'u targedu.

- Ymgysylltiad cryf â REACH gyda **2,141 o bobl ifanc unigol wedi eu cyrraedd** a **18,444 o gysylltiadau cofrestredig** wedi eu cofnodi yn ystod 2025-26.
- Gwaith ieuenctid rheolaidd yn yr ysgol ar draws pob ysgol uwchradd.
- Clybiau ieuenctid cymunedol a darpariaeth mynediad agored ar draws y sir.
- Cynyddu ymgysylltu digidol trwy'r wefan dan arweiniad ieuenctid, TikTok a datblygu cyfryngau cymdeithasol.
- Strwythurau llais ieuenctid cryf gan gynnwys y Cyngor Ieuenctid, grwpiau cyfranogi a phaneli dan arweiniad ieuenctid.
- Sylfaen dystiolaeth gynyddol trwy arolygon, ymgysylltu â phartneriaid, gwerthuso, archwilio ac adrodd am berfformiad.
- Gweithlu ymroddedig gyda lefelau cryf o gymwysterau gwaith ieuenctid a hyfforddiant parhaus.
- Ymgyrch flynyddol Rhoi Dy Farn sy'n ymgysylltu â dros 2,250 o bobl ifanc.
- Cysylltiadau cryf â chynghorau tref a chymuned a sefydliadau cymunedol.
- Cyfleusterau gwaith ieuenctid, canolfannau ieuenctid a mannau cymunedol wedi'u sefydlu ar draws y sir.
- Cyfraniad cryf gan y sector gwirfoddol a chymunedol, gan gynnwys dros **80 o sefydliadau** sy'n cymryd rhan trwy Fforwm Darparwyr Plant a Phobl Ifanc.

**Beth mae hyn yn ei olygu i'r Strategaeth**

Mae'r dystiolaeth a nodir yn yr adran hon yn dangos bod gan Geredigion sylfaen waith ieuenctid gryf ond hefyd meysydd clir i'w datblygu.

Mae'r system bresennol yn cyrraedd nifer sylweddol o bobl ifanc ac yn darparu ystod eang o gyfleoedd cyfranogi ac atal mewn ysgolion, yn y gymuned, wedi'u targedu, digidol a chyfrwng Cymraeg. Fodd bynnag, mae adborth a data hefyd yn dangos nad yw mynediad bob amser yn gyson, bod trafnidiaeth yn parhau i fod yn rhwystr, bod angen dulliau hyblyg ar gymunedau gwledig, bod angen i gyfathrebu digidol barhau i wella, a bod rhaid mynd i'r afael â chynaliadwyedd y gweithlu a chyllid.

Mae'r dystiolaeth hefyd yn tynnu sylw at bwysigrwydd cydnabod realiti tlodi ac anghydraddoldeb gwledig yng Ngheredigion. Er bod heriau sy'n gysylltiedig â thrafnidiaeth, fforddiadwyedd tai, mynediad at wasanaethau ac allgáu digidol yn effeithio ar lawer o bobl ifanc ar draws y sir, mae cymunedau, diwylliant, y Gymraeg a rhwydweithiau partneriaeth cryf yng Ngheredigion hefyd yn darparu cryfderau sylweddol y gall datblygiad gwaith ieuenctid adeiladu arnynt yn y dyfodol.

Roedd y dystiolaeth wedi tynnu sylw hefyd at bwysigrwydd amddiffyn cyfleusterau ieuenctid, mannau cymunedol a chyfleoedd lleol sy'n cefnogi cyfranogiad, llesiant a chysylltiad cymunedol, yn enwedig o fewn cymunedau gwledig.



DRAFT

Mae'r dystiolaeth hon wedi llunio'n uniongyrchol y chwe blaenoriaeth strategol yn Rhan 3:

1. **Mynediad at Waith Ieuenctid o Safon Uchel**
2. **Cymunedau Gwledig Ffyniannus**
3. **Llesiant, Perthyn a Pherthnasoedd Dibynadwy**
4. **Llais, Cyfranogiad ac Arweinyddiaeth Ieuenctid**
5. **Rhwydwaith Gweithlu a Gwirfoddolwyr Medrus, Cynaliadwy a Dwyieithog**
6. **Partneriaethau, Cymunedau a Gweithredu ar y Cyd**

Mae Rhan 3 yn esbonio sut y byddwn yn ymateb i'r dystiolaeth hon dros y pum mlynedd nesaf, gan gynnwys yr hyn y byddwn yn ei ddiogelu a'i gryfhau ym Mlynyddoedd 1-2, a'r hyn y byddwn yn ei ddatblygu, ei ehangu a'i arloesi ym Mlynyddoedd 3-5.

Gyda'i gilydd, mae'r gwasanaethau hyn yn ffurfio Cynnig Gwaith Ieuenctid lleol Ceredigion ac yn cynrychioli'r cyfleoedd y gall pobl ifanc ddisgwyl eu cael trwy system gwaith ieuenctid y sir.

DRAFT

# Rhan 3 – Blaenoriaethau Strategol a Gweithredu ar y Cyd

## Cyflwyniad

Mae'r adran hon yn nodi'r chwe blaenoriaeth strategol a fydd yn arwain datblygiad gwaith ieuenctid ar draws Ceredigion rhwng 2027 a 2032.

Mae'r blaenoriaethau wedi cael eu llunio trwy ymgysylltu â phobl ifanc, cymunedau, staff, gwirfoddolwyr a phartneriaid ynghyd â thystiolaeth a gasglwyd trwy werthuso gwasanaethau, data perfformiad, gweithgarwch cyfranogi a datblygiadau polisi lleol a chenedlaethol ehangach. Maent yn darparu fframwaith cyffredin ar gyfer amddiffyn yr hyn sy'n gweithio'n dda, ymateb i anghenion lleol a gwella canlyniadau i bobl ifanc dros y pum mlynedd nesaf.

Er bod y strategaeth hon yn cael ei harwain gan Wasanaeth Ieuenctid Ceredigion, bydd cyflawni llwyddiannus yn dibynnu ar gyfraniad y system gwaith ieuenctid ehangach, gan gynnwys ysgolion, sefydliadau gwirfoddol, grwpiau cymunedol, cynghorau tref a chymuned, gwasanaethau cyhoeddus, gwirfoddolwyr a'r bobl ifanc eu hunain. Mae gwaith ieuenctid yn fwyaf effeithiol pan gaiff ei ddarparu trwy bartneriaeth, cyd-berchnogaeth a gweithredu ar y cyd.

Mae'r adran hon wedi'i threfnu yn ôl tri chwestiwn allweddol:

| |
|---|
| **Pam?**<br><br>**Pam mae'r blaenoriaethau hyn wedi cael eu dewis a beth mae'r dystiolaeth yn ei ddweud wrthym.** |
| **Beth?**<br><br>**Beth fyddwn yn ei wneud ar y cyd dros y pum mlynedd nesaf i gryfhau gwaith ieuenctid ar draws Ceredigion.** |
| **Sut?**<br><br>**Sut byddwn yn monitro cynnydd, mesur effaith ac ysgogi gwelliant parhaus.** |

Ar gyfer pob blaenoriaeth, amlinellwn:

- Pam mae hyn yn bwysig.
- Beth ddywedodd pobl ifanc wrthym.
- Beth ddywedodd partneriaid wrthym.
- Cryfderau presennol i adeiladu arnynt.

Mae'r adran yn dod i ben gyda Chynllun Gweithredu ar y Cyd a Fframwaith Perfformiad ac Effaith ar gyfer y sir gyfan, gan ddwyn ynghyd y camau gweithredu, mesurau a threfniadau atebolrwydd allweddol a fydd yn sail i gyflawni'r strategaeth hon.

**Pam y blaenoriaethau hyn?**

Mae'r chwe blaenoriaeth yn y strategaeth hon wedi cael eu llunio gan beth ddywedodd pobl ifanc, partneriaid, cymunedau ac ymarferwyr wrthym, ochr yn ochr â thystiolaeth a gasglwyd trwy weithgareddau ymgysylltu, gwybodaeth am berfformiad, casgliadau gwerthuso, yr Archwiliad Gwaith Ieuenctid, Asesu Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae a datblygiadau polisi lleol a chenedlaethol ehangach. Gyda'i gilydd, mae'r dystiolaeth hon yn rhoi darlun clir o'r cyfleoedd, heriau a dyheadau a ddylai lunio dyfodol gwaith ieuenctid yng Ngheredigion.

Er bod profiad pob person ifanc yn wahanol, daeth sawl thema gyffredin i'r amlwg yn gyson trwy gydol y broses ymgysylltu. Dywedodd pobl ifanc wrthym eu bod yn gwerthfawrogi mannau diogel, oedolion dibynadwy, cyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau, cysylltiadau cryfach â'u cymunedau a chyfleoedd ystyrlon i ddylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau. Tynnwyd sylw hefyd at rwystrau sy'n ymwneud â thrafnidiaeth, ymwybyddiaeth o gyfleoedd, mynediad at ddarpariaeth leol a'r heriau y mae rhai cymunedau gwledig yn eu hwynebu.

Roedd partneriaid yn cydnabod y cyfraniad pwysig y mae gwaith ieuenctid yn ei wneud at atal, llesiant, cyfranogiad, addysg, cyflogadwyedd a gwydnwch cymunedau. Tynnwyd sylw at bwysigrwydd partneriaethau cryf, buddsoddi yn y gweithlu, darpariaeth gymunedol gynaliadwy, llywodraethu effeithiol a chydweithio parhaus i ateb anghenion newidiol pobl ifanc.

Mae'r themâu hyn wedi cael eu troi'n chwe blaenoriaeth gydgysylltiedig a fydd yn arwain datblygiad gwaith ieuenctid ar draws Ceredigion rhwng 2027 a 2032.

## Beth Glywsom Ni → Ein Blaenoriaethau Strategol

| Blaenoriaeth | Beth Glywsom Ni |
|---|---|
| 🔵 **Blaenoriaeth 1 – Mynediad at Waith Ieuenctid o Safon Uchel** | Mae pobl ifanc am gael mwy o gyfleoedd, gwybodaeth well, mannau diogel a mynediad haws at weithgareddau, gwasanaethau a chymorth gwaith ieuenctid. |

| | |
|---|---|
| **Blaenoriaeth 2 – Cymunedau Gwledig Ffyniannus** | Mae pobl ifanc am gael mwy o gyfleoedd yn nes at adref ac ymatebion gwell i drafnidiaeth, pellter a rhwystrau gwledig. |
| **Blaenoriaeth 3 – Llesiant, Perthyn a Pherthnasoedd Dibynadwy** | Mae pobl ifanc yn gwerthfawrogi oedolion dibynadwy, perthnasoedd cadarnhaol, mannau diogel a chyfleoedd sy'n cefnogi llesiant a pherthyn. |
| **Blaenoriaeth 4 – Llais, Cyfranogiad ac Arweinyddiaeth Ieuenctid** | Mae pobl ifanc am gael eu clywed, eu cynnwys mewn penderfyniadau a'u cefnogi i arwain newid yn eu hysgolion, cymunedau a chymdeithas ehangach. |
| **Blaenoriaeth 5 – Rhwydwaith Gweithlu a Gwirfoddolwyr Medrus, Cynaliadwy a Dwyieithog** | Mae gweithwyr ieuenctid a gwirfoddolwyr yn gwneud gwahaniaeth. Mae cynnal gweithlu medrus, hyderus a chynaliadwy yn hanfodol i lwyddiant yn y dyfodol. |
| **Blaenoriaeth 6 – Partneriaethau, Cymunedau a Gweithredu ar y Cyd** | Mae angen cyfathrebu, cydweithredu a chyd-berchnogaeth gryfach i greu cynnig gwaith ieuenctid cydgysylltiedig ar draws Ceredigion. |

Er eu bod yn cael eu cyflwyno fel blaenoriaethau ar wahân, maent wedi'u cysylltu'n agos. Yn aml, bydd cynnydd mewn un maes yn cyfrannu at gynnydd mewn un arall. Gyda'i gilydd, maent yn darparu fframwaith cyffredin ar gyfer diogelu'r hyn sy'n gweithio'n dda, ymateb i anghenion lleol a sicrhau bod pobl ifanc yn parhau i fod wrth wraidd datblygiad gwaith ieuenctid ar draws Ceredigion dros y pum mlynedd nesaf.

DRAFT

## Blaenoriaeth 1 – Mynediad at Waith Ieuenctid o Safon Uchel

***"Mwy o amser gyda fy ngweithiwr ieuenctid."***

**Pam mae hyn yn bwysig**

Dylai pob person ifanc allu cael mynediad at gyfleoedd gwaith ieuenctid o safon uchel waeth ble maen nhw'n byw, eu cefndir, eu hamgylchiadau neu lefel eu hangen.

Mae mynediad yn ymwneud â mwy na dim ond darparu gwasanaethau. Mae'n golygu a yw pobl ifanc yn gwybod pa gyfleoedd sydd ar gael, a allant fanteisio arnynt, a ydynt yn teimlo bod croeso iddynt ac wedi eu cynnwys, ac a yw'r ddarpariaeth yn adlewyrchu eu diddordebau, eu hanghenion a'u dyheadau.

Trwy gydol ein hymgysylltiad, roedd pobl ifanc wedi sôn am bwysigrwydd mannau diogel, gweithgareddau, oedolion dibynadwy a chyfleoedd i dreulio amser gyda ffrindiau. Fodd bynnag, roeddent hefyd wedi tynnu sylw at rwystrau gan gynnwys trafnidiaeth, pellter, ymwybyddiaeth o gyfleoedd a mynediad at ddarpariaeth leol. Gall yr heriau hyn fod yn arbennig o arwyddocaol o fewn sir wledig fel Ceredigion, a gallant ddylanwadu ar bwy sy'n cymryd rhan, pa mor aml y maent yn ymgysylltu, a pha gyfleoedd sydd ar gael iddynt.

Mae mynediad hefyd yn dibynnu ar argaeledd mannau diogel a chroesawgar. Mae canolfannau ieuenctid, adeiladau gwasanaeth ieuenctid, cyfleusterau cymunedol a lleoliadau partner yn chwarae ròl bwysig o ran cefnogi cyfranogiad, llesiant ac atal. Mae'r cyfleusterau hyn yn asedau cymunedol gwerthfawr a dylid ystyried yn ofalus unrhyw newidiadau neu bwysau yn y dyfodol sy'n effeithio arnynt ochr yn ochr â'u heffaith bosibl ar bobl ifanc a chymunedau lleol.

**Beth ddywedodd pobl ifanc wrthym**

Dywedodd pobl ifanc wrthym yn gyson eu bod nhw am gael mwy o gyfleoedd i gymryd rhan mewn gwaith ieuenctid yn agosach at ble maen nhw'n byw. Maen nhw am gael lleoedd diogel i dreulio amser gyda ffrindiau, mwy o weithgareddau, teithiau a phrofiadau, gwybodaeth well am gyfleoedd a ffyrdd haws o gymryd rhan.

Siaradodd pobl ifanc yn gadarnhaol am y berthynas sydd ganddynt â gweithwyr ieuenctid a'r rôl y mae gwaith ieuenctid yn ei chwarae o ran eu helpu i deimlo eu bod yn cael eu cefnogi, eu cysylltu a'u cynnwys yn eu cymunedau.

Ar yr un pryd, roeddent wedi tynnu sylw at rwystrau ymarferol gan gynnwys teithio, trafnidiaeth, ymwybyddiaeth gyfyngedig o'r cyfleoedd sydd ar gael a darpariaeth nad yw bob amser ar gael ar yr amser iawn neu yn y lleoliad iawn. Mae'r canfyddiadau hyn yn atgyfnerthu'r angen am gynnig gwaith ieuenctid sy'n weladwy, yn hygyrch ac wedi'i lunio o amgylch realiti bywydau pobl ifanc.

**Beth ddywedodd partneriaid wrthym**

DRAFT

Roedd partneriaid yn cydnabod gwaith ieuenctid fel gwasanaeth addysgol, ataliol a chymunedol pwysig sy'n cefnogi llesiant, cyfranogiad a chynnydd pobl ifanc.

Roeddent wedi tynnu sylw at bwysigrwydd cynnal cynnig gwaith ieuenctid cryf ar draws y sir, amddiffyn cyfleusterau ieuenctid a mannau cymunedol, cryfhau llwybrau rhwng yr ysgol, y gymuned a darpariaeth wedi'i thargedu, gwella cyfathrebu a sicrhau bod cyfleoedd yn parhau i fod yn hygyrch ar draws cymunedau trefol a gwledig.

Pwysleisiodd partneriaid hefyd yr angen am lwybrau clir, cynhwysol a hygyrch i waith ieuenctid, yn enwedig ar gyfer pobl ifanc a allai wynebu rhwystrau ychwanegol i gyfranogiad.

**Cryfderau presennol i adeiladu arnynt**

Mae Ceredigion eisoes yn elwa ar gynnig gwaith ieuenctid amrywiol wedi'i ddarparu trwy ysgolion, cymunedau, canolfannau ieuenctid, lleoliadau allgymorth, llwyfannau digidol a rhaglenni wedi'u targedu. Yn ystod 2025-26, ymgysylltodd Gwasanaeth Ieuenctid Ceredigion â **2,141 o bobl ifanc unigol** a chofnododd fwy na **18,000 o gysylltiadau cofrestredig** ar draws ei ddarpariaeth.

Ar hyn o bryd mae pobl ifanc yn cael mynediad at waith ieuenctid trwy glybiau ieuenctid cymunedol, gwaith ieuenctid mewn ysgolion, darpariaeth allgymorth a symudol, canolfannau ieuenctid, cyfleoedd cyfranogi, rhaglenni atal a chymorth wedi'i dargedu. Mae'r cyfleoedd hyn yn cael eu hategu gan gynnig digidol cynyddol, gan gynnwys y wefan a llwyfannau cyfryngau cymdeithasol dan arweiniad ieuenctid.

Mae'r gwasanaeth wedi sefydlu ymyriadau wedi'u targedu a llwybrau cymorth ar gyfer pobl ifanc a allai fod angen cymorth ychwanegol. Trwy gynllunio ymyriadau mae pobl ifanc yn cael eu cefnogi i ystyried nodau, mynd i'r afael â rhwystrau, adeiladu ar eu cryfderau a chael mynediad at y cymorth y mae ei angen arnynt i wella llesiant, cyfranogiad, dilyniant a chyfleoedd yn y dyfodol.

Mae datblygiadau diweddar mewn gwaith ieuenctid digidol wedi cynyddu ymwybyddiaeth o gyfleoedd ac wedi cryfhau cyfathrebu â phobl ifanc. Yn ystod ei gyfnod datblygu cynnar, cynhyrchodd platfform TikTok y Gwasanaeth Ieuenctid fwy na **47,500 o ymweliadau,** gan ddangos potensial ymgysylltu digidol ieuenctid gyfeillgar er mwyn cynyddu gwelededd a chyrhaeddiad.

Ochr yn ochr â hyn, mae rhwydwaith cryf o leoliadau cymunedol, cyfleusterau ieuenctid a sefydliadau partner yn parhau i ddarparu amgylcheddau diogel, hygyrch a chroesawgar i bobl ifanc ar draws y sir. Mae'r sylfeini hyn yn darparu llwyfan cryf ar gyfer datblygiad a gwelliant yn y dyfodol.

DRAFT

## Blaenoriaeth 2 – Cymunedau Gwledig Ffyniannus

***"Mwy o glybiau ieuenctid yn y pentrefi bach."***

**Pam mae hyn yn bwysig**

Mae natur wledig Ceredigion yn un o gryfderau mwyaf y sir. Mae pobl ifanc yn elwa ar gymunedau cryf, mynediad at natur, iaith a threftadaeth ddiwylliannol Gymraeg ac ymdeimlad cryf o hunaniaeth a pherthyn. Mae'r asedau hyn yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i waith ieuenctid gefnogi llesiant, cyfranogiad, dysgu a chysylltiad cymunedol.

Ar yr un pryd, roedd pobl ifanc wedi nodi'n gyson natur wledig fel un o'r ffactorau mwyaf sy'n effeithio ar eu gallu i gael mynediad at weithgareddau, cyfleoedd a chymorth. Gall trafnidiaeth, pellter, fforddiadwyedd ac argaeledd darpariaeth leol i gyd ddylanwadu ar allu pobl ifanc i gymryd rhan mewn gwaith ieuenctid a bywyd cymunedol ehangach. Mae'r heriau hyn hefyd wedi eu hadlewyrchu yn Asesiad Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae Ceredigion, sy'n tynnu sylw at faterion parhaus yn ymwneud â mynediad, darpariaeth wledig a thrafnidiaeth.

Mae'r flaenoriaeth hon yn golygu mwy na dim ond goresgyn rhwystrau. Mae'n ymwneud ag adeiladu ar y cryfderau sydd eisoes yn bodoli mewn cymunedau gwledig, helpu pobl ifanc i gael mynediad at gyfleoedd yn nes at adref, a sicrhau nad yw lle mae person ifanc yn byw yn pennu'r cyfleoedd sydd ar gael iddynt.

**Beth ddywedodd pobl ifanc wrthym**

Roedd pobl ifanc wedi nodi'n gyson trafnidiaeth a phellter fel rhwystrau i gyfranogiad. Dywedodd llawer wrthym y byddent yn hoffi cael mwy o gyfleoedd yn eu cymunedau eu hunain a mynediad haws at weithgareddau mewn mannau eraill yn y sir.

Roeddent wedi siarad yn gadarnhaol am eu cymunedau lleol, mannau awyr agored, cyfeillgarwch a chysylltiad â lle, ond roeddent hefyd wedi tynnu sylw at awydd i gael:

- Mwy o gyfleoedd yn nes at adref.
- Mwy o weithgareddau ieuenctid o fewn pentrefi a chymunedau gwledig.
- Trafnidiaeth a chysylltiadau gwell.
- Mynediad gwell at deithiau, profiadau a gweithgareddau ar draws y sir.
- Mwy o gyfleoedd awyr agored, hamdden a chymunedol.

Dywedodd pobl ifanc wrthym hefyd eu bod yn gwerthfawrogi'r diogelwch, y diwylliant, yr iaith a'r amgylchedd naturiol y mae Ceredigion yn eu cynnig a'u bod am i'r cryfderau hyn barhau i lunio cyfleoedd gwaith ieuenctid yn y dyfodol.

**Beth ddywedodd partneriaid wrthym**

Roedd partneriaid wedi nodi'n gyson natur wledig fel her a chyfle.

DRAFT

Roeddent wedi tynnu sylw at effaith trafnidiaeth, daearyddiaeth a mynediad at wasanaethau, gan gydnabod yr un pryd cryfderau rhwydweithiau cymunedol, cyfleusterau lleol, gwirfoddolwyr a sefydliadau cymunedol sy'n helpu i gynnal cyfleoedd ar gyfer pobl ifanc ar draws y sir.

Roedd partneriaid wedi nodi cynghorau tref a chymuned fel cyfranwyr pwysig at gyfleoedd gwaith ieuenctid lleol, digwyddiadau cymunedol, cyfleusterau a lle. Mae potensial cryf i gryfhau cydweithio â chynghorau lleol i gefnogi gweithgareddau ieuenctid, mentrau cymunedol a chyfleoedd i bobl ifanc o fewn cymunedau gwledig.

Pwysleisiodd partneriaid bwysigrwydd:

- Cryfhau gwaith ieuenctid yn y gymuned.
- Gwneud defnydd gwell o gyfleusterau lleol ac asedau cymunedol.
- Cefnogi sefydliadau a gwirfoddolwyr lleol.
- Cynyddu cyfleoedd o fewn cymunedau gwledig.
- Gwella cysylltiadau rhwng cyfleoedd lleol a chyfleoedd ar draws y sir.
- Gweithio'n agosach gyda chynghorau tref a chymuned.

Yn yr un modd, nododd Asesu Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae bwysigrwydd gwella darpariaeth wledig, cefnogi cyfleusterau lleol a gweithio ar y cyd â chymunedau i gynyddu mynediad at gyfleoedd i blant a phobl ifanc.

**Cryfderau presennol i adeiladu arnynt**

Mae Ceredigion eisoes yn elwa ar rwydweithiau cymunedol cryf, sefydliadau gwirfoddol gweithredol, cynghorau tref a chymuned, digwyddiadau lleol a chyfleusterau cymunedol sy'n darparu cyfleoedd pwysig i bobl ifanc. Mae gwaith ieuenctid yn cael ei gyflawni trwy gyfuniad o ddarpariaeth yn yr ysgol, clybiau ieuenctid cymunedol, allgymorth, gwaith ieuenctid symudol, gweithgareddau gwyliau a phrosiectau partneriaeth ar draws Gogledd, Canolbarth a De Ceredigion.

Roedd Asesu Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae wedi nodi 73 o barciau a mannau chwarae ar draws y sir, ochr yn ochr ag ystod eang o asedau cymunedol sy'n cefnogi cyfleoedd plant a phobl ifanc i chwarae, cymryd rhan a chysylltu ag eraill. Mae llawer o'r cyfleusterau hyn yn cael eu rheoli a'u cefnogi gan gynghorau tref a chymuned, grwpiau cymunedol a gwirfoddolwyr.

Mae partneriaethau cryf eisoes yn bodoli gyda sefydliadau cymunedol, clybiau chwaraeon, sefydliadau Cymraeg, hybiau cymunedol a grwpiau lleol sy'n helpu i ymestyn cyrhaeddiad gwaith ieuenctid y tu hwnt i leoliadau traddodiadol. Mae'r partneriaethau hyn yn darparu sylfaen gryf ar gyfer cynyddu cyfleoedd lleol, cryfhau cysylltiadau cymunedol a sicrhau y gall pobl ifanc ffynnu o fewn y cymunedau y maent yn eu hystyried yn gartref.

DRAFT

## Blaenoriaeth 3 – Llesiant, Perthyn a Pherthnasoedd Dibynadwy

***"Mannau diogel i dreulio amser."***

**Pam mae hyn yn bwysig**

Dywedodd pobl ifanc wrthym yn gyson mai un o agweddau pwysicaf gwaith ieuenctid yw cael oedolion dibynadwy, perthnasoedd cadarnhaol a mannau diogel lle maent yn teimlo eu bod yn cael eu croesawu, eu gwerthfawrogi a'u bod yn gallu bod eu hunain. Er bod iechyd meddwl a llesiant yn cael eu trafod yn aml yn ystod gweithgareddau ymgysylltu, roedd pobl ifanc yn aml yn siarad yn fwy cyffredinol am bwysigrwydd cyfeillgarwch, perthyn, hyder, cyfranogiad a theimlo'n gysylltiedig ag eraill.

Mae gan waith ieuenctid rôl unigryw i'w chwarae o ran cefnogi llesiant trwy gyfranogiad gwirfoddol, perthnasoedd dibynadwy a phrofiadau cadarnhaol. Trwy ddarparu mannau diogel, cyfleoedd i gysylltu ag eraill a mynediad at oedolion dibynadwy, mae gwaith ieuenctid yn helpu pobl ifanc i feithrin hyder, gwydnwch ac ymdeimlad cryfach o berthyn yn eu cymunedau.

Mae'r flaenoriaeth hon hefyd yn adlewyrchu'r cyfraniad pwysig y mae gwaith ieuenctid yn ei wneud at atal ac ymyrraeth gynnar. Fel gwasanaeth integredig, mae gwaith ieuenctid yn gweithio ochr yn ochr â Chyfiawnder Ieuenctid, y Fframwaith Ymgysylltiad a Chynnydd Ieuenctid, atal digartrefedd ymhlith pobl ifanc a gwasanaethau cymorth cynnar ehangach i nodi anghenion yn gynnar, meithrin cryfderau a darparu cymorth cyn i heriau waethygu. Trwy ddull Rhoi Plant yn Gyntaf, mae gwaith ieuenctid yn helpu pobl ifanc i ddatblygu hunaniaethau cadarnhaol, gwneud dewisiadau gwybodus a chael mynediad at y gefnogaeth iawn ar yr amser iawn.

**Beth ddywedodd pobl ifanc wrthym**

Llesiant oedd un o'r themâu cryfaf i ddod i'r amlwg yn ein hymgysylltiad.

Dywedodd pobl ifanc wrthym eu bod yn gwerthfawrogi:

- Mannau diogel a chroesawgar i dreulio amser.
- Oedolion dibynadwy sy'n gwrando arnynt ac yn eu deall.
- Cyfleoedd i gymdeithasu a gwneud ffrindiau.
- Gweithgareddau sy'n eu helpu i deimlo'n hyderus a bod ganddynt gysylltiad
- Cymorth sydd ar gael cyn i broblemau droi'n argyfwng.

Roedd pobl ifanc yn aml yn siarad am bwysigrwydd cael eu deall, cael rhywun i siarad â nhw a theimlo'n rhan o gymuned. Roeddent hefyd wedi tynnu sylw at

deimladau o unigrwydd, gorbryder ac unigedd, yn enwedig lle mae cyfleoedd i gysylltu ag eraill yn gyfyngedig.

Yn bwysig ddigon, disgrifiodd pobl ifanc lesiant fel mwy nag iechyd meddwl yn unig. I lawer, roedd llesiant yn gysylltiedig â pherthnasoedd, cyfranogiad, perthyn, teimlo'n ddiogel a chael mynediad at gyfleoedd cadarnhaol.

**Beth ddywedodd partneriaid wrthym**

Roedd partneriaid wedi nodi'n gyson llesiant fel mater arwyddocaol sy'n effeithio ar bobl ifanc ar draws Ceredigion gan dynnu sylw at bwysigrwydd atal, ymyrraeth gynnar a chymorth sy'n seiliedig ar berthnasoedd.

Pwysleisiodd partneriaid:

- Pwysigrwydd perthnasoedd dibynadwy.
- Cefnogi llesiant cyn i anawsterau waethygu.
- Cynyddu cyfleoedd ar gyfer cysylltiad cymdeithasol a pherthyn.
- Cryfhau llwybrau rhwng gwasanaethau cyffredinol ac arbenigol.
- Lleihau unigedd, yn enwedig mewn cymunedau gwledig.
- Cynnal pwyslais cryf ar atal a gwydnwch.

Roedd partneriaid hefyd yn cydnabod y cyfraniad unigryw y mae gwaith ieuenctid yn ei wneud trwy ei ddull gwirfoddol, anffurfiol a seiliedig ar berthynas, gan helpu pobl ifanc i ymgysylltu â chymorth mewn amgylcheddau lle maent yn teimlo'n gyfforddus, eu bod yn cael eu parchu a'u gwerthfawrogi.

**Cryfderau presennol i adeiladu arnynt**

Mae Ceredigion eisoes yn manteisio ar ddiwylliant cryf o atal, ymyrraeth gynnar ac ymarfer sy'n seiliedig ar berthnasoedd. Mae gan bobl ifanc fynediad at gymorth llesiant trwy ysgolion, clybiau ieuenctid, lleoliadau cymunedol, darpariaeth allgymorth, rhaglenni wedi'u targedu a gwasanaethau arbenigol wedi'i ategu gan bartneriaethau cryf ar draws y sir.

Mae gwaith ieuenctid yn chwarae rôl bwysig o fewn Model Gydol Oes ehangach Ceredigion, gan gefnogi pontio llyfnach rhwng gwasanaethau a chreu cyfleoedd ar gyfer ymyrraeth gynharach. Mae'r gwasanaeth hefyd yn cyfrannu'n uniongyrchol at weithgarwch atal Cyfiawnder Ieuenctid, trefniadau Fframwaith Ymgysylltiad a Chynnydd Ieuenctid ac atal digartrefedd pobl ifanc trwy fentora, datblygu sgiliau bywyd, cymorth gyda chynnydd a pherthnasoedd oedolion dibynadwy.

Un o'r cryfderau mwyaf a nodwyd trwy ein hymgysylltiad oedd gwerth y gweithwyr ieuenctid eu hunain. Roedd pobl ifanc wedi tynnu sylw yn gyson at bwysigrwydd oedolion dibynadwy sy'n cymryd amser i wrando, deall eu profiadau a darparu cymorth heb farnu. Mae'r perthnasoedd hyn yn parhau i fod wrth wraidd gwaith ieuenctid effeithiol ac yn darparu sylfaen gryf ar gyfer gwella llesiant, cryfhau perthyn a helpu pobl ifanc i ffynnu.

## Blaenoriaeth 4 – Llais, Cyfranogiad ac Arweinyddiaeth Ieuenctid

***"Mae pethau'n newid pan rydym ni'n eu hawgrymu."***

**Pam mae hyn yn bwysig**

Dywedodd pobl ifanc wrthym eu bod am gael gwir lais yn y penderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau, eu cymunedau a'r gwasanaethau y maen nhw'n eu defnyddio. Maen nhw am i bobl wrando arnynt, cael eu cynnwys wrth wneud penderfyniadau a gallu gweld sut mae eu barn yn arwain at newid ystyrlon. Mae gwaith ieuenctid yn chwarae rôl bwysig o ran creu cyfleoedd i bobl ifanc ddylanwadu ar benderfyniadau, datblygu sgiliau arweinyddiaeth a bod yn gyfranwyr gweithredol yn eu cymunedau.

Mae cyfranogiad yn golygu mwy na dim ond ymgynghori. Mae pobl ifanc yn ymgysylltu mewn ffyrdd gwahanol a thrwy leoliadau gwahanol. Mae rhai yn dewis strwythurau ffurfiol fel y Cyngor Ieuenctid, tra bod eraill yn cyfrannu trwy glybiau ieuenctid, ysgolion, llwyfannau digidol, gweithgareddau cymunedol neu ymgyrchoedd untro. Mae creu ystod o gyfleoedd hygyrch yn helpu i sicrhau y gall ystod ehangach a mwy cynrychioliadol o bobl ifanc ddylanwadu ar wasanaethau a gwneud penderfyniadau.

Mae'r flaenoriaeth hon yn canolbwyntio ar gryfhau llais pobl ifanc, cynyddu cyfleoedd cyfranogiad a chefnogi pobl ifanc i fod yn arweinwyr, gwirfoddolwyr, eiriolwyr a'r rhai sy'n gwneud newidiadau yn eu cymunedau.

**Beth ddywedodd pobl ifanc wrthym**

Dywedodd pobl ifanc wrthym yn gyson eu bod am i'w barn ddylanwadu ar benderfyniadau ac arwain at gamau gweithredu pendant.

Roeddent wedi dweud wrthym eu bod nhw am gael:

- Mwy o gyfleoedd i ddylanwadu ar benderfyniadau lleol.
- Mwy o ymwneud â chynllunio gweithgareddau a gwasanaethau.
- Mwy o gyfleoedd gwirfoddoli ac arweinyddiaeth.
- Adborth gwell am yr hyn sydd wedi newid oherwydd eu barn.
- Mwy o gyfleoedd i lunio eu hysgolion, eu cymunedau a'u gwasanaethau yn y dyfodol.

Roedd pobl ifanc hefyd wedi tynnu sylw at bwysigrwydd cael cyfranogiad sy'n hygyrch ac yn gynhwysol, gan sicrhau bod pob llais yn cael ei glywed a'i gynrychioli, nid dim ond y rhai sy'n cymryd rhan mewn prosesau ymgynghori ffurfiol. Maent yn gwerthfawrogi cyfranogiad pan fydd yn teimlo'n ystyrlon a phan fyddant yn gallu gweld effaith eu cyfranogiad.

DRAFT

**Beth ddywedodd partneriaid wrthym**

Roedd partneriaid yn cefnogi'n gryf yr angen i gryfhau cyfranogiad a llais ieuenctid ar draws Ceredigion.

Roeddent wedi pwysleisio pwysigrwydd:

- Ymgorffori cyfranogiad trwy'r holl wasanaethau.
- Cynnwys pobl ifanc yn gynharach wrth wneud penderfyniadau.
- Cynyddu cyfleoedd arweinyddiaeth a gwirfoddoli.
- Ymgysylltu â grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol.
- Cryfhau cysylltiadau rhwng cyfranogi a datblygu gwasanaethau.
- Dangos sut mae barn pobl ifanc yn dylanwadu ar ganlyniadau.

Roedd partneriaid hefyd yn cydnabod y rôl bwysig y mae gwaith ieuenctid yn ei chwarae o ran helpu pobl ifanc i fagu hyder, sgiliau arweinyddiaeth, sgiliau eiriolaeth a dinasyddiaeth weithgar.

**Cryfderau presennol i adeiladu arnynt**

Mae gan Geredigion sylfaen gryf o gyfranogiad a gweithgarwch llais ieuenctid eisoes. Mae pobl ifanc yn cyfrannu trwy ysgolion, clybiau ieuenctid, gweithgareddau ymgynghori, grwpiau cyfranogi, ymgysylltu digidol, prosiectau dan arweiniad ieuenctid a mentrau cymunedol. Mae'r Cyngor Ieuenctid yn darparu mecanwaith sefydledig ar gyfer cynrychioli ac ymgysylltu â'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau, tra bod cyfleoedd cyfranogi ehangach yn sicrhau y gall pobl ifanc ymgysylltu trwy amrywiaeth o lwybrau ffurfiol ac anffurfiol.

Mae'r ymgyrch flynyddol **Rhoi Dy Farn (Have Your Say)** yn un o ymarferion ymgysylltu ag ieuenctid mwyaf y sir erbyn hyn. Yn 2025, roedd 2,252 o bobl ifanc wedi cymryd rhan, gan helpu i nodi'r materion sydd bwysicaf iddyn nhw a llunio rhaglen waith flynyddol y Cyngor Ieuenctid. Mae'r ymgyrch hefyd yn darparu dull pwysig ar gyfer nodi themâu a blaenoriaethau newydd a allai ddylanwadu ar weithgarwch gwaith ieuenctid yn y dyfodol trwy gydol oes y strategaeth hon.

Mae datblygiadau diweddar mewn ymgysylltu digidol, cyfathrebu dan arweiniad ieuenctid a'r cyfryngau cymdeithasol hefyd wedi creu cyfleoedd newydd i bobl ifanc rannu eu barn, dylanwadu ar wasanaethau a chymryd rhan mewn ffyrdd sy'n teimlo'n berthnasol ac yn hygyrch iddyn nhw. Gyda'i gilydd, mae'r rhain yn darparu sylfaen gryf ar gyfer cryfhau llais, arweinyddiaeth a chyfranogiad pobl ifanc dros oes y strategaeth hon.

DRAFT

## 🟠 Blaenoriaeth 5 – Rhwydwaith Gweithlu a Gwirfoddolwyr Medrus, Cynaliadwy a Dwyieithog

***"Mae gweithwyr ieuenctid yn gwrando."***

**Pam mae hyn yn bwysig**

Mae pobl ifanc wedi dweud wrthym yn gyson fod gweithwyr ieuenctid yn un o agweddau pwysicaf ar waith ieuenctid effeithiol. Ar draws ein hymgysylltu, roedd pobl ifanc wedi sôn yn gadarnhaol am y berthnasoedd dibynadwy y maent wedi eu datblygu â gweithwyr ieuenctid a'r gwahaniaeth y mae'r perthnasoedd hyn yn ei wneud i'w hyder, eu llesiant, eu cyfranogiad a'u hymdeimlad o berthyn.

Mae darparu gwaith ieuenctid o safon uchel yn dibynnu ar gael gweithlu medrus, hyderus a chefnogol. Mae hyn yn cynnwys gweithwyr ieuenctid â chymwysterau proffesiynol, gweithwyr cymorth ieuenctid, gwirfoddolwyr, arweinwyr ieuenctid cymunedol a sefydliadau partner sydd i gyd yn cyfrannu at y system gwaith ieuenctid ehangach. Wrth i ddisgwyliadau gwaith ieuenctid barhau i esblygu, rhaid i'r gweithlu allu ymateb i ystod eang o anghenion, cyfleoedd a heriau sy'n wynebu pobl ifanc.

Mae gwirfoddolwyr hefyd yn chwarae rôl hanfodol o ran cefnogi cyfleoedd i bobl ifanc ar draws Ceredigion. Trwy glybiau ieuenctid, sefydliadau chwaraeon, grwpiau cymunedol, gweithgareddau diwylliannol, mentrau Cymraeg a phrosiectau lleol, mae gwirfoddolwyr yn helpu i greu cyfleoedd na fyddent yn bosibl trwy ddarpariaeth statudol yn unig. Felly bydd cefnogi, cydnabod a datblygu gwirfoddolwyr yn hanfodol i gynaliadwyedd hirdymor gwaith ieuenctid ar draws y sir.

Mae'r flaenoriaeth hon hefyd yn ymwneud â sicrhau mwy o gysondeb ac atebolrwydd ar draws y gwasanaeth. Trwy ddatblygu'r gweithlu, goruchwylio, cynlluniau gwaith a chynlluniau gwaith unigol, rydym am sicrhau bod y gwaith ieuenctid o ddydd i ddydd yn adlewyrchu'r blaenoriaethau, gwerthoedd a chanlyniadau sydd wedi cael eu cynnwys yn y strategaeth hon.

**Beth ddywedodd pobl ifanc wrthym**

Er nad oedd pobl ifanc yn sôn yn uniongyrchol yn aml am ddatblygu'r gweithlu, roeddent wedi tynnu sylw yn gyson at y rhinweddau y maent yn eu gwerthfawrogi mewn gweithwyr ieuenctid ac oedolion dibynadwy.

Dywedodd pobl ifanc wrthym eu bod yn gwerthfawrogi:

- Gweithwyr ieuenctid sy'n gwrando.
- Oedolion dibynadwy sy'n deall eu profiadau.
- Perthnasoedd cyson.
- Amgylcheddau diogel a chroesawgar.
- Pobl sy'n gwneud gweithgareddau'n ddiddorol ac yn bleserus.
- Staff sydd ar gael pan fydd angen cymorth arnynt.

DRAFT

Dro ar ôl tro roedd pobl ifanc wedi pwysleisio pwysigrwydd cael oedolion dibynadwy sy'n gwrando arnynt, sy'n eu deall a'u cefnogi. Mae eu hadborth yn atgyfnerthu pwysigrwydd cynnal gweithlu gweladwy, hygyrch sydd wedi'i gefnogi'n dda gyda'r amser a'r gallu i feithrin perthnasoedd ystyrlon.

**Beth ddywedodd partneriaid wrthym**

Roedd partneriaid yn cydnabod yn gyson cryfder ac ymrwymiad y gweithlu gwaith ieuenctid ar draws Ceredigion. Roeddent wedi tynnu sylw at bwysigrwydd:

- Llesiant a gwydnwch y gweithlu.
- Addysg a datblygiad proffesiynol.
- Recriwtio, cadw a chynllunio ar gyfer olyniaeth.
- Cynnal gweithlu dwyieithog medrus.
- Recriwtio a chymorth gwirfoddolwyr.
- Datblygu arweinwyr gwaith ieuenctid y dyfodol.
- Creu llwybrau cliriach i waith ieuenctid a gwirfoddoli.
- Rhannu arbenigedd ar draws sefydliadau a sectorau.

Roedd partneriaid hefyd wedi tynnu sylw at yr angen i barhau i gydnabod gwaith ieuenctid fel ymarfer addysgol proffesiynol a buddsoddi yn y gweithlu a'r rhwydwaith gwirfoddolwyr y mae eu hangen i gynnal darpariaeth o safon uchel yn y dyfodol.

**Cryfderau presennol i adeiladu arnynt**

Mae Ceredigion yn manteisio ar weithlu ymroddedig, profiadol a chymwysedig sy'n cael ei werthfawrogi'n fawr gan bobl ifanc, cymunedau a phartneriaid. Roedd manylion gweithlu 2025-26 wedi cofnodi bod 28 o staff yn darparu gwaith ieuenctid, gyda 23 o staff yn meddu ar gymwysterau Lefel 2 JNC neu uwch a phump aelod arall o staff yn cael eu hyfforddi.

Mae gan y gwasanaeth ddiwylliant cryf eisoes o ddysgu proffesiynol, ymarfer myfyriol, diogelu, goruchwylio a datblygu'r gweithlu. Mae staff yn cyfrannu ar draws ysgolion, cymunedau, lleoliadau allgymorth, llwyfannau digidol, cyfiawnder ieuenctid, cyfranogiad, atal a chymorth wedi'i dargedu, gan ddarparu cynnig gwaith ieuenctid eang a hyblyg i bobl ifanc.

Mae Ceredigion hefyd yn elwa ar rwydwaith cryf o wirfoddolwyr, sefydliadau cymunedol ac asiantaethau partner sy'n gwneud cyfraniad sylweddol at gefnogi pobl ifanc. Mae partneriaethau presennol â sefydliadau megis yr Urdd, Clybiau Ffermwyr Ifanc, grwpiau cymunedol a sefydliadau sector gwirfoddol yn darparu cyfleoedd gwerthfawr ar gyfer gwirfoddoli, arweinyddiaeth a chynnydd.

Mae'r cryfderau hyn yn darparu sylfaen gadarn ar gyfer datblygu gweithlu medrus, cynaliadwy a dwyieithog sy'n cyfateb â blaenoriaethau'r strategaeth hon ac sydd wedi'i baratoi i ateb anghenion newidiol pobl ifanc dros y pum mlynedd nesaf.



DRAFT

## 🔴 Blaenoriaeth 6 – Partneriaethau, Cymunedau a Gweithredu ar y Cyd

***"Gwybod pwy yw pwy. Gwybod beth maen nhw'n ei wneud a ble."***

**Pam mae hyn yn bwysig**

Nid yw gwaith ieuenctid yn digwydd ar ei ben ei hun. Mae pobl ifanc, cymunedau, gwirfoddolwyr, ysgolion, gwasanaethau cyhoeddus a sefydliadau gwirfoddol i gyd yn chwarae rôl bwysig wrth greu cyfleoedd a gwella canlyniadau i bobl ifanc ar draws Ceredigion. Mae partneriaethau cryf yn helpu i sicrhau bod pobl ifanc yn profi gwasanaethau cysylltiedig, hygyrch ac ymatebol yn hytrach na chasgliad o sefydliadau a gweithgareddau ar wahân.

Trwy gydol datblygiad y strategaeth hon, roedd pobl ifanc wedi pwysleisio pwysigrwydd gwybod pa gyfleoedd sydd ar gael, deall ble i gael cymorth a gweld sefydliadau'n cydweithio'n fwy effeithiol. Roedd partneriaid hefyd yn cydnabod na all unrhyw sefydliad unigol ateb holl anghenion pobl ifanc ar ei ben ei hun, a bod cydweithio, dysgu ar y cyd a gweithredu ar y cyd yn hanfodol er mwyn mynd i'r afael â heriau presennol a heriau'r dyfodol.

Mae'r flaenoriaeth hon hefyd yn ymwneud â chryfhau rôl cymunedau wrth gefnogi pobl ifanc. Mae cyfleusterau cymunedol, canolfannau ieuenctid, neuaddau pentref, mannau hamdden a digwyddiadau lleol i gyd yn rhan o'r seilwaith gwaith ieuenctid ehangach sy'n helpu pobl ifanc i gysylltu, cymryd rhan a chyfrannu o fewn eu cymunedau. Trwy gydweithio'n fwy effeithiol, gallwn greu cyfleoedd lleol cryfach, gwella cyfathrebu a sicrhau bod pobl ifanc yn parhau i fod â chysylltiad â'u cymunedau.

**Beth ddywedodd pobl ifanc wrthym**

Dywedodd pobl ifanc wrthym yn gyson eu bod am gael gwybodaeth well am y gweithgareddau, gwasanaethau a chyfleoedd sydd ar gael iddynt.

Roedd pobl ifanc wedi sôn am y canlynol:

- Am gael gwybod beth sydd ar gael yn lleol.
- Mynediad haws at wybodaeth a chymorth.
- Cyfathrebu gwell ynglŷn â gweithgareddau a digwyddiadau.
- Mwy o gyfleoedd cydgysylltiedig.
- Cyfleoedd parhaus i ddylanwadu ar benderfyniadau a llunio darpariaeth yn y dyfodol.

Pwysleisiodd pobl ifanc hefyd bwysigrwydd gweld canlyniadau eu cyfranogiad a deall sut mae sefydliadau'n ymateb i'r materion y maen nhw'n eu codi.

**Beth ddywedodd partneriaid wrthym**

Roedd partneriaid wedi tynnu sylw at gryfder y perthnasoedd presennol ar draws Ceredigion, gan nodi cyfleoedd i gryfhau cydweithio ymhellach.

Roedden nhw wedi pwysleisio pwysigrwydd:

- Cyfathrebu cryfach rhwng sefydliadau.
- Cyfleoedd dysgu a rhwydweithio ar y cyd.
- Llwybrau atgyfeirio gwell.
- Cynllunio ar y cyd a datrys problemau.
- Cysylltiadau cryfach rhwng sefydliadau statudol, gwirfoddol a chymunedol.
- Cynyddu ymwybyddiaeth o wasanaethau a chyfleoedd.
- Sicrhau y gall sefydliadau cymunedol llai gyfrannu at drafodaethau strategol.

Roedd partneriaid hefyd wedi tynnu sylw at y rôl y mae sefydliadau cymunedol, gwirfoddolwyr a chynghorau lleol yn ei chwarae o ran cynnal cyfleoedd i bobl ifanc, yn enwedig o fewn cymunedau gwledig.

**Cryfderau presennol i adeiladu arnynt**

Mae Ceredigion eisoes yn manteisio ar ddiwylliant cryf o weithio mewn partneriaeth. Mae ystod eang o sefydliadau yn cyfrannu at gefnogi llesiant, cyfranogiad, datblygiad a chynnydd pobl ifanc trwy ysgolion, gwasanaethau cymunedol, sefydliadau gwirfoddol, cyfiawnder ieuenctid, gwasanaethau ymyrraeth gynnar a phartneriaethau rhanbarthol.

Mae Fforwm Darparwyr Plant a Phobl Ifanc yn darparu mecanwaith sefydledig ar gyfer cydweithio, gan ddwyn ynghyd dros **80 o sefydliadau a gwasanaethau** i rannu gwybodaeth, nodi anghenion newydd a chryfhau gweithio mewn partneriaeth ar draws y sir.

Mae perthnasoedd cryf eisoes yn bodoli gyda sefydliadau gan gynnwys Area 43, RAY Ceredigion, Urdd Gobaith Cymru, Clybiau Ffermwyr Ifanc, EYST, CAVO, ProMo Cymru, ysgolion ac amrywiaeth o grwpiau cymunedol a gwirfoddol. Bydd y partneriaethau hyn a'r rhai a gaiff eu creu yn y blynyddoedd i ddod yn helpu i ymestyn cyfleoedd i bobl ifanc a chryfhau cefnogaeth o fewn cymunedau lleol.

Roedd Asesu Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae hefyd wedi tynnu sylw at y cyfraniad sylweddol sy'n cael ei wneud gan gynghorau tref a chymuned, cymdeithasau cymunedol a gwirfoddolwyr lleol o ran cynnal cyfleusterau, cefnogi gweithgareddau a gwella cyfleoedd i blant a phobl ifanc. Mae'r asedau cymunedol hyn yn darparu sylfaen bwysig ar gyfer cydweithio a datblygiad dan arweiniad y gymuned yn y dyfodol.

DRAFT

Gyda'i gilydd, mae'r cryfderau hyn yn darparu llwyfan cadarn ar gyfer creu system gwaith ieuenctid fwy cysylltiedig, cydweithredol a chynaliadwy sy'n cael ei llunio gan gymunedau ac sy'n canolbwyntio ar anghenion pobl ifanc.

DRAFFT

## Sut bydd llwyddiant yn edrych erbyn 2032

Erbyn 2032, rydym am i waith ieuenctid fod yn fwyfwy gweladwy, hygyrch a gwerthfawr ar draws Ceredigion. Bydd gan bobl ifanc fynediad gwell at gyfleoedd, perthnasoedd cryfach ag oedolion dibynadwy a mwy o gyfleoedd i ddylanwadu ar benderfyniadau, cyfrannu at eu cymunedau a chyflawni eu dyheadau.

Bydd llwyddiant yn golygu:

| | |
|---|---|
| **🔵 Ieuenctid o Safon Uchel** | • Mwy o bobl ifanc yn cymryd rhan mewn cyfleoedd gwaith ieuenctid ar draws Ceredigion.<br>• Mwy o ymwybyddiaeth o ba gyfleoedd sydd ar gael a sut i gael mynediad atynt.<br>• Mynediad mwy cyson at waith ieuenctid waeth ble mae person ifanc yn byw.<br>• Llwybrau symlach a mwy hygyrch i waith ieuenctid, cyfranogiad a gwasanaethau cymorth. |
| **🟢 Cymunedau Gwledig Ffyniannus** | • Mwy o gyfleoedd ar gael o fewn cymunedau gwledig.<br>• Cyfranogiad cynyddol gan bobl ifanc sy'n byw mewn pentrefi ac ardaloedd gwledig.<br>• Perthnasoedd cryfach rhwng pobl ifanc a'u cymunedau lleol.<br>• Mwy o ddefnydd o gyfleusterau, asedau a mannau awyr agored cymunedol lleol. |
| **🟡 Llesiant, Perthyn a** | • Mwy o bobl ifanc yn adrodd am lesiant, hyder a gwydnwch cadarnhaol. |

DRAFT

| | |
|---|---|
| **Phherthnasoedd Dibynadwy** | • Mwy o bobl ifanc yn cael mynediad at oedolion dibynadwy a phherthnasoedd cefnogol.<br>• Llai o deimladau o unigedd a datgysylltu.<br>• Cysylltiadau cymunedol cryfach a theimlad o berthyn. |
| 🟣 **Llais, Cyfranogiad ac Arweinyddiaeth Ieuenctid** | • Mwy o bobl ifanc yn dylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau.<br>• Cyfranogiad cynyddol mewn gwirfoddoli, arweinyddiaeth a gweithredu cymunedol.<br>• Mwy o gynrychiolaeth gan grwpiau amrywiol a heb gynrychiolaeth ddigonol.<br>• Tystiolaeth gryfach bod barn pobl ifanc yn llunio gwasanaethau a phenderfyniadau. |
| 🟠 **Rhwydwaith Gweithlu a Gwirfoddolwyr Medrus, Cynaliadwy a Dwyieithog** | • Gweithlu medrus, hyderus a gwydn.<br>• Cynyddu capasiti'r gweithlu dwyieithog.<br>• Mwy o recriwtio, cadw a datblygu gwirfoddolwyr.<br>• Llwybrau clir i waith ieuenctid, gwirfoddoli ac arweinyddiaeth gymunedol. |
| 🔴 **Partneriaethau, Cymunedau a** | • Cydweithredu cryfach ar draws y system gwaith ieuenctid.<br>• Cyfathrebu gwell ac ymwybyddiaeth gwell o gyfleoedd.<br>• Mwy o brosiectau a mentrau ar y cyd. |

DRAFT

| | |
|---|---|
| **Gweithredu ar y Cyd** | • Mwy o gyfranogiad gan gymunedau, partneriaid a sefydliadau lleol wrth gefnogi pobl ifanc. |

## Cynllun Gweithredu Cyfunol 2027-2032

Mae'r blaenoriaethau a ddisgrifir yn y cynllun hwn yn darparu'r cyfeiriad strategol ar gyfer gwaith ieuenctid dros y pum mlynedd nesaf. Mae'r Cynllun Gweithredu Cyfunol hwn yn dwyn ynghyd y blaenoriaethau hynny mewn rhaglen weithgaredd gyffredin ar gyfer pobl ifanc, cymunedau, partneriaid ac ymarferwyr.

Mae'r camau gweithredu wedi cael eu grwpio'n ddau gam:

- Blynyddoedd 1-2: Diogelu, Cryfhau a Gwella.
- Blynyddoedd 3-5: Datblygu, Ehangu ac Arloesi.

Er bod camau gweithredu wedi cael eu grwpio o dan flaenoriaethau unigol, bydd llawer yn cyfrannu at sawl maes o'r strategaeth a dylid eu hystyried yn rhan o system gwaith ieuenctid gysylltiedig yn hytrach na ffrydiau gwaith ar wahân.

| Blynyddoedd 1-2: Diogelu, Cryfhau a Gwella | Blynyddoedd 3-5: Datblygu, Ehangu ac Arloesi |
|---|---|
| 🔵 **Blaenoriaeth 1 – Mynediad at Waith Ieuenctid o Safon Uchel**<br>1. Diogelu darpariaeth gwaith ieuenctid, cyfleusterau, canolfannau ieuenctid a lleoliadau cymunedol presennol.<br>2. Adolygu a gwella sut mae pobl ifanc yn cael mynediad at gyfleoedd a chymorth.<br>3. Symleiddio prosesau aelodaeth, cofrestru a chyfathrebu. | 🔵 **Blaenoriaeth 1 – Mynediad at Waith Ieuenctid o Safon Uchel**<br>1. Archwilio hybiau ieuenctid cymunedol a chyfleusterau cyd-ddefnyddio.<br>2. Ehangu cyfleoedd gwaith ieuenctid digidol.<br>3. Cynyddu mynediad at achrediad, arweinyddiaeth a llwybrau dilyniant. |

DRAFT

| | |
|---|---|
| 4. Gwella ymwybyddiaeth o gyfleoedd trwy ymgysylltu digidol a wyneb yn wyneb.<br>5. Cryfhau llwybrau rhwng darpariaeth yn yr ysgol, darpariaeth yn y gymuned a darpariaeth wedi'i thargedu.<br>6. Sicrhau bod ystyriaethau cydraddoldeb, amrywiaeth a hygyrchedd wedi cael eu hymgorffori yn nhrefniadau mynediad at waith ieuenctid. | 4. Adolygu cynaliadwyedd hirdymor cyfleusterau a seilwaith gwaith ieuenctid. |
| **Blaenoriaeth 2 – Cymunedau Gwledig Ffyniannus**<br>1. Mapio darpariaeth gwaith ieuenctid, asedau cymunedol a bylchau mewn cyfleoedd ar draws y sir.<br>2. Cryfhau perthnasoedd â chynghorau tref a chymuned.<br>3. Cynyddu cyfranogiad gwaith ieuenctid mewn digwyddiadau lleol, sioeau amaethyddol a mentrau cymunedol.<br>4. Gwella cyfleoedd lleol i bobl ifanc o fewn cymunedau gwledig.<br>5. Cryfhau dulliau allgymorth, symudol a seiliedig ar le. | **Blaenoriaeth 2 – Cymunedau Gwledig Ffyniannus**<br>1. Datblygu modelau cyflenwi gwledig arloesol.<br>2. Cynyddu cyfleoedd o fewn cymunedau dan anfantais.<br>3. Cryfhau dulliau gwaith ieuenctid dan arweiniad y gymuned ac sy'n seiliedig ar le.<br>4. Cynyddu cyfleoedd dysgu awyr agored, diwylliannol ac amgylcheddol. |
| **Blaenoriaeth 3 – Llesiant, Perthyn a Pherthnasoedd Dibynadwy**<br>1. Diogelu mannau diogel a gwaith ieuenctid sy'n seiliedig ar berthnasoedd.<br>2. Cryfhau dulliau ymyrraeth gynnar ac atal.<br>3. Gwella cysylltiadau rhwng gwaith ieuenctid, llesiant a gwasanaethau cymorth. | **Blaenoriaeth 3 – Llesiant, Perthyn a Pherthnasoedd Dibynadwy**<br>1. Datblygu cyfleoedd mentora cyfoedion a chymorth gan gyfoedion.<br>2. Cryfhau mentrau llesiant cymunedol.<br>3. Ehangu dulliau sy'n hyrwyddo gwydnwch, perthyn a chysylltiad cymdeithasol. |

DRAFT

| | |
|---|---|
| 4. Cryfhau cyfraniadau gwaith ieuenctid i'r Fframwaith Ymgysylltiad a Chynnydd Ieuenctid, atal digartrefedd ymhlith pobl ifanc a gweithgarwch atal Cyfiawnder Ieuenctid.<br>5. Hyrwyddo cyfleoedd sy'n cefnogi perthyn, cysylltiad a llesiant cadarnhaol. | 4. Datblygu cymorth ataliol cryfach yn y gymuned. |
| 🟣 **Blaenoriaeth 4 – Llais, Cyfranogiad ac Arweinyddiaeth Ieuenctid**<br><br>1. Cryfhau trefniadau'r Cyngor Ieuenctid.<br>2. Parhau ag ymgyrchoedd blynyddol **Rhoi Dy Farn / Have Your Say.**<br>3. Gwella adrodd ac adborth "Dywedoch Chi, Gwnaethom Ni".<br>4. Cynyddu cyfleoedd ar gyfer gwirfoddoli, arweinyddiaeth a gweithredu cymunedol.<br>5. Datblygu cyfleoedd cyfranogiad mwy cynhwysol ar gyfer grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol. | 🟣 **Blaenoriaeth 4 – Llais, Cyfranogiad ac Arweinyddiaeth Ieuenctid**<br><br>1. Datblygu Arolygwyr Ifanc a dulliau gwerthuso dan arweiniad ieuenctid.<br>2. Sefydlu Fforwm Gwasanaeth Ieuenctid neu strwythur Pwyllgor Iau.<br>3. Cynyddu cyfranogiad pobl ifanc mewn llywodraethu a gwneud penderfyniadau.<br>4. Datblygu cyfleoedd arweinyddiaeth sy'n gysylltiedig â Chymru Gwrth-Hiliol ac agendâu cyfranogiad ehangach. |
| 🟠 **Blaenoriaeth 5 – Rhwydwaith Gweithlu a Gwirfoddolwyr Medrus, Cynaliadwy a Dwyieithog**<br><br>1. Datblygu cynlluniau datblygu'r gweithlu unigol a threfniadau goruchwylio.<br>2. Cyflwyno cynlluniau gwaith gweithwyr ieuenctid sy'n gysylltiedig â blaenoriaethau strategol.<br>3. Cryfhau cynllunio'r gweithlu a chynllunio olyniaeth. | 🟠 **Blaenoriaeth 5 – Rhwydwaith Gweithlu a Gwirfoddolwyr Medrus, Cynaliadwy a Dwyieithog**<br><br>1. Datblygu prentisiaethau, lleoliadau a llwybrau gweithlu.<br>2. Creu llwybrau gwirfoddoli-i-yrfa cryfach.<br>3. Cryfhau sgiliau arbenigol mewn gwaith ieuenctid digidol, cynhwysiant, cyfranogiad ac atal. |

DRAFT

| | |
|---|---|
| 4. Cynyddu hyder yn y Gymraeg a darpariaeth ddwyieithog.<br>5. Gwella recriwtio, cymorth a chydnabod gwirfoddolwyr. | 4. Datblygu cyfleoedd arweinyddiaeth ar gyfer ymarferwyr y dyfodol. |
| 🔴 **Blaenoriaeth 6 – Partneriaethau, Cymunedau a Gweithredu ar y Cyd**<br>1. Cryfhau'r Fforwm Darparwyr Plant a Phobl Ifanc.<br>2. Sefydlu digwyddiad Rhwydwaith Gwaith Ieuenctid Blynyddol.<br>3. Gwella llwybrau atgyfeirio a chyfathrebu partneriaeth.<br>4. Cynyddu cyfranogiad y gymuned a'r sector gwirfoddol.<br>**5.** Cryfhau ymgysylltiad â chynghorau lleol, grwpiau cymunedol a sefydliadau ieuenctid. | 🔴 **Blaenoriaeth 6 – Partneriaethau, Cymunedau a Gweithredu ar y Cyd**<br>1. Cynyddu prosiectau cydweithredol a mentrau ar y cyd.<br>2. Cryfhau partneriaethau rhanbarthol a chenedlaethol.<br>3. Datblygu dulliau cyffredin ar gyfer gwerthuso a mesur effaith.<br>4. Archwilio cyfleoedd ar gyfer cyllido a chomisiynu ar y cyd. |

DRAFT

## Mesur Llwyddiant ac Effaith

<table>
<tr><th colspan="2">Offer a Ffynonellau Tystiolaeth: Bydd cynnydd yn cael ei fonitro trwy ddefnyddio amrywiaeth o ffynonellau tystiolaeth meintiol ac ansoddol, gan gynnwys:</th></tr>
<tr><td>• Data cyfranogiad REACH.<br>• Arolygon ac adborth pobl ifanc.<br>• Ymgysylltiad â Rhoi Dy Farn / Have Your Say.<br>• Arolygon partneriaid a rhanddeiliaid.<br>• Manylion Gwaith Ieuenctid Llywodraeth Cymru.<br>• Casgliadau'r Asesiad Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae.<br>• Gwybodaeth am berfformiad Cyfiawnder Ieuenctid.</td><td>• Data Fframwaith Ymgysylltiad a Chynnydd Ieuenctid.<br>• Data atal a chynnydd digartrefedd pobl ifanc.<br>• Dadansoddeg ymgysylltu digidol, gan gynnwys perfformiad gwefan a'r cyfryngau cymdeithasol.<br>• Datblygu'r gweithlu a gwybodaeth am wirfoddolwyr.<br>• Gwerthusiadau gwasanaeth, archwiliadau, arolygon bodlonrwydd a hunanasesiadau.</td></tr>
</table>

<table>
<tr><th colspan="3">Mesurau Perfformiad: Byddwn yn monitro cynnydd trwy chwe maes canlyniad allweddol:</th></tr>
<tr><td>Mynediad a Chyfranogiad<br>1. Nifer y bobl ifanc sy'n cael mynediad at waith ieuenctid.<br>2. Lledaeniad daearyddol y ddarpariaeth.<br>3. Cyfranogiad gan gymunedau a grwpiau gwahanol.<br>4. Mynediad at gyfleusterau a chyfleoedd.</td><td>Llesiant a Pherthyn<br>1. Llesiant, hyder a gwydnwch pobl ifanc.<br>2. Lefelau ail-ymgysylltu.<br>3. Adborth ar ddiogelwch, perthyn a chynhwysiant.</td><td>Llais a Dylanwad Ieuenctid<br>1. Cyfranogiad mewn ymgynghoriadau a chyfleoedd arweinyddiaeth.<br>2. Prosiectau a mentrau dan arweiniad ieuenctid.<br>3. Tystiolaeth o ddylanwad pobl ifanc ar benderfyniadau.</td></tr>
<tr><td>Cynnydd a Chyflawniad<br>1. Canlyniadau a chyflawniadau achrededig.</td><td>Gweithlu a Gwirfoddolwyr<br>1. Capasiti a chymwysterau'r gweithlu.</td><td>Partneriaethau a Chymunedau<br>1. Ymgysylltiad a chyfranogiad partneriaid.</td></tr>
</table>

DRAFT

| | | |
|---|---|---|
| 2. Cyfranogiad gwirfoddoli ac arweinyddiaeth.<br>3. Symud ymlaen i addysg, cyflogaeth a hyfforddiant. | 2. Recriwtio a chadw gwirfoddolwyr.<br>3. Sgiliau Cymraeg a gallu dwyieithog.<br>4. Llesiant a datblygiad y gweithlu. | 2. Cynnwys cymunedau.<br>3. Prosiectau cydweithredol a mentrau ar y cyd.<br>4. Gweithgarwch atgyfeirio a phartneriaeth. |

**Sicrhau Ansawdd a Gwelliant Parhaus**

Bydd gwelliant parhaus yn cael ei gefnogi trwy'r:

- Canlyniadau a gyflawnwyd trwy gynlluniau ymyrraeth gwaith ieuenctid.
- Canran y canlyniadau wedi'u cynllunio a gyflawnwyd trwy ymyriadau gwaith ieuenctid wedi'u targedu, wedi'u cefnogi gan adborth pobl ifanc, adolygiadau achosion a monitro cynnydd.
- Cynlluniau datblygu'r gweithlu unigol.
- Cynlluniau gwaith gweithwyr ieuenctid sy'n cyfateb i'r blaenoriaethau strategol.
- Goruchwylio, arfarnu ac ymarfer myfyriol.
- Hunanasesiad blynyddol yn erbyn y Safonau Gwaith Ieuenctid Cenedlaethol.
- Prosesau adborth ac adolygu gan bartneriaid.
- Gweithgarwch gwerthuso a chyfranogiad dan arweiniad ieuenctid.
- Adroddiadau perfformiad blynyddol ac adolygiad strategol.

Mae'r chwe blaenoriaeth a nodir yn yr adran hon yn darparu fframwaith cyffredin ar gyfer cryfhau gwaith ieuenctid ar draws Ceredigion dros y pum mlynedd nesaf. Gyda'i gilydd, maent yn adlewyrchu'r hyn roedd pobl ifanc, cymunedau, ymarferwyr a phartneriaid wedi'i ddweud wrthym sydd bwysicaf, ochr yn ochr â'r dystiolaeth a gasglwyd.

Er bod pob blaenoriaeth yn canolbwyntio ar faes datblygu penodol, maent wedi'u cysylltu'n agos. Mae gwella mynediad at waith ieuenctid yn cefnogi llesiant a chyfranogiad. Mae cymunedau gwledig cryfach yn creu mwy o gyfleoedd ar gyfer cysylltiad a pherthyn. Mae gweithlu medrus yn cryfhau perthnasoedd a chanlyniadau. Mae gweithio'n effeithiol mewn partneriaeth yn helpu i sicrhau bod pobl ifanc yn profi rhwydwaith cymorth cydlynol a hygyrch. Gyda'i gilydd, mae'r blaenoriaethau hyn yn cynrychioli ein huchelgais ar y cyd ar gyfer pobl ifanc yng Ngheredigion a'r cyfraniad y gall gwaith ieuenctid ei wneud at gymunedau cryfach, llesiant gwell a dyfodol cadarnhaol.

Mae'r blaenoriaethau wedi'u hategu gan gynllun gweithredu clir, dull cyffredin ar gyfer mesur llwyddiant ac ymrwymiad at welliant parhaus. Mae rhan olaf y strategaeth hon yn nodi sut y byddwn yn troi'r blaenoriaethau hyn yn gamau gweithredu. Mae'n egluro sut y caiff y strategaeth ei chyflawni, sut y caiff cynnydd ei fonitro, sut y bydd pobl ifanc a phartneriaid yn parhau i ddylanwadu ar wneud penderfyniadau, a sut y byddwn yn sicrhau bod gwaith ieuenctid yng Ngheredigion yn parhau i fod yn berthnasol, yn ymatebol ac yn atebol trwy gydol oes y cynllun hwn.

DRAFFT

# Rhan 4 – Cyflawni, Monitro a Gwella'r Strategaeth

**Cyflawni'r Strategaeth**

Mae Cynllun Strategol Gwaith Ieuenctid Ceredigion 2027-2032 yn ymrwymiad a rennir i bobl ifanc, cymunedau a phartneriaid ar draws y sir.

Er y bydd Gwasanaeth Ieuenctid Ceredigion yn arwain y gwaith o gyflawni a chydlynu'r strategaeth, bydd cyflawni ei uchelgeisiau yn dibynnu ar weithredu ar y cyd ar draws y system gwaith ieuenctid ehangach. Mae gan ysgolion, sefydliadau gwirfoddol, grwpiau cymunedol, gwasanaethau iechyd, cyfiawnder ieuenctid, sefydliadau'r Gymraeg, clybiau chwaraeon, sefydliadau diwylliannol, cyflogwyr, cymunedau lleol a phobl ifanc eu hunain rôl bwysig i'w chwarae o ran cefnogi'r gwaith o gyflawni'r cynllun hwn yn llwyddiannus.

Mae'r chwe blaenoriaeth strategol yn Rhan 3 yn amlinellu'r meysydd lle byddwn yn canolbwyntio ein hymdrechion dros y pum mlynedd nesaf. Bydd y ddarpariaeth yn cael ei chyflwyno'n raddol ar draws oes y strategaeth, gan gydnabod pwysigrwydd diogelu a chryfhau'r ddarpariaeth bresennol ac ar yr un pryd yn datblygu cyfleoedd newydd ac ymateb i anghenion sy'n dod i'r amlwg.

Trwy gydol y broses weithredu, bydd yr iaith Gymraeg, cynhwysiant digidol, cydraddoldeb, cyfranogiad, gweithio mewn partneriaeth, y Safonau Gwaith Ieuenctid Cenedlaethol a'n dull Gydol Oes yn parhau i fod yn egwyddorion trawsbynciol sy'n sail i bob maes cyflawni.

Bydd cyflawni'r strategaeth hon yn gofyn am arweinyddiaeth gyfunol a chyfrifoldeb ar y cyd. Er y bydd Gwasanaeth Ieuenctid Ceredigion yn gweithredu fel y prif sefydliad cydlynu, bydd ei gweithredu'n llwyddiannus yn dibynnu ar gyfraniad parhaus ysgolion, sefydliadau gwirfoddol, grwpiau cymunedol, cynghorau tref a chymuned, sefydliadau Cymraeg, cyflogwyr, gwasanaethau cyhoeddus, gwirfoddolwyr a'r bobl ifanc eu hunain. Ni fydd llwyddiant y strategaeth hon yn cael ei bennu gan weithredoedd un sefydliad yn unig, ond gan gryfder y system gwaith ieuenctid ehangach yn cydweithio.

Mae canolfannau ieuenctid, lleoliadau cymunedol a chyfleusterau partner yn asedau pwysig o fewn y system gwaith ieuenctid leol. Lle cynigir newidiadau sylweddol, dylid ystyried yr effaith bosibl ar fynediad pobl ifanc at gyfleoedd, cyfranogiad a chefnogaeth.

**Llywodraethu ac atebolrwydd**

Mae'r strategaeth wedi cael ei datblygu a chaiff ei chyflawni mewn cydweithrediad â sefydliadau gwirfoddol, grwpiau cymunedol a phartneriaid statudol. Bydd trefniadau llywodraethu cryf yn hanfodol i sicrhau bod y strategaeth yn parhau i fod yn berthnasol, yn atebol ac yn ymatebol trwy gydol y cyfnod o bum mlynedd.

Gwasanaeth Ieuenctid Ceredigion fydd yn gyfrifol am oruchwyliaeth strategol o'r cynllun trwy drefniadau rheoli a llywodraethu sefydledig. Bydd cynnydd yn cael ei adolygu'n rheolaidd trwy strwythurau adrodd presennol a mecanweithiau llywodraethu corfforaethol ehangach.

Un o egwyddorion allweddol y strategaeth hon yw bod pobl ifanc, partneriaid a chymunedau yn parhau i ddylanwadu ar weithredu'r strategaeth, adolygu cynnydd a llunio datblygiadau yn y dyfodol. Felly mae llywodraethu yn ymestyn y tu hwnt i strwythurau rheoli ffurfiol ac yn cynnwys cyfranogiad parhaus a threfniadau partneriaeth.

Bydd y strategaeth yn cael ei chefnogi trwy dair llwybr llywodraethu cydgysylltiedig:

**Goruchwyliaeth strategol**

Darperir goruchwyliaeth strategol trwy'r canlynol:

- Trefniadau arweinyddiaeth a rheoli Gwasanaeth Ieuenctid Ceredigion.
- Trefniadau llywodraethu Gydol Oes.
- Prosesau cynllunio corfforaethol a rheoli perfformiad.
- Strwythurau adrodd a chraffu perthnasol y Cyngor.
- Gweithgarwch hunanasesu a gwella blynyddol.

**Goruchwyliaeth a dylanwad pobl ifanc**

Rydym yn cydnabod nad yw pob person ifanc yn dymuno cymryd rhan trwy strwythurau ffurfiol. Felly, byddwn yn cynnal amrywiaeth o lwybrau cyfranogi, gan gynnig modd i bobl ifanc ddylanwadu ar benderfyniadau trwy glybiau ieuenctid, ysgolion, ymgysylltu digidol, gweithgareddau cymunedol, rhaglenni wedi'u targedu a strwythurau cynrychioliadol megis y Cyngor Ieuenctid. Bydd pobl ifanc yn parhau i chwarae rôl weithredol wrth fonitro a llunio'r ddarpariaeth trwy ystod o gyfleoedd ymgysylltu ffurfiol ac anffurfiol, gan gynnwys:

- Sefydlu fforwm gwasanaeth ieuenctid pwrpasol.
- Grwpiau cyfranogi yn yr ysgol a'r gymuned.
- Rhaglenni Hawliau a Chyfranogiad Plant.
- Ymgysylltu digidol a llwyfannau cyfryngau cymdeithasol.
- Arolygon pobl ifanc, grwpiau ffocws a gweithgareddau ymgynghori.
- Fforymau ieuenctid a weithredir gan sefydliadau partner a'r sector gwirfoddol.

Bydd y mecanweithiau hyn yn helpu i sicrhau bod pobl ifanc yn parhau i fod yn bartneriaid gweithredol wrth wneud penderfyniadau yn hytrach na dim ond yn rhai sy'n derbyn gwasanaethau.

**Goruchwylio a chydweithio â phartneriaethau**

Bydd gweithio mewn partneriaeth yn parhau trwy'r canlynol:

- Fforwm Darparwyr Plant a Phobl Ifanc.
- Cyfarfod Rhwydwaith Gwaith Ieuenctid chwarterol i bartneriaid, ymarferwyr, gwirfoddolwyr a sefydliadau cymunedol.
- Rhwydweithiau partneriaeth gweithredol a strategol presennol.
- Grwpiau gwaith aml-asiantaeth.
- Digwyddiadau a gweithdai partneriaeth gwaith ieuenctid.
- Rhwydweithiau gwaith ieuenctid rhanbarthol a chenedlaethol.

Bydd y trefniadau hyn yn cefnogi cydweithio, rhannu gwybodaeth, datrys problemau ac atebolrwydd ar y cyd ar gyfer gwella canlyniadau i bobl ifanc.

**Gwrando, dysgu ac adrodd yn ôl**

Dywedodd pobl ifanc wrthym bod cyfranogiad yn teimlo'n ystyrlon dim ond pan allant weld beth sydd wedi newid o ganlyniad iddynt gymryd rhan.

Trwy gydol oes y strategaeth hon, byddwn yn cynnal ffocws cryf ar adborth, cyfathrebu a thryloywder. Rydym am i bobl ifanc, partneriaid a chymunedau ddeall nid yn unig yr hyn rydym yn ei wneud ond hefyd sut mae eu barn yn parhau i ddylanwadu ar gyfeiriad gwaith ieuenctid ar draws Ceredigion.

Byddwn yn gwneud hyn trwy'r canlynol:

**Pobl ifanc**

- Diweddariadau blynyddol "Dywedoch Chi, Gwnaethom Ni".
- Adroddiadau cynnydd ieuenctid gyfeillgar.
- Diweddariadau a thrafodaethau'r Cyngor Ieuenctid.
- Sesiynau cyfranogiad mewn ysgolion, clybiau ieuenctid a chymunedau.
- Cyfleoedd ymgysylltu â'r cyfryngau cymdeithasol a rhoi adborth digidol.
- Cyfathrebu dan arweiniad ieuenctid trwy'r wefan ieuenctid a llwyfannau digidol.

**Partneriaid**

- Diweddariadau rheolaidd trwy Fforwm Darparwyr Plant a Phobl Ifanc.
- Digwyddiadau Rhwydwaith Gwaith Ieuenctid blynyddol.
- Gweithdai partneriaeth a thrafodaethau thematig.
- Rhannu casgliadau dysgu, ymchwil a gwerthuso.
- Cyfleoedd ar gyfer cynllunio ac adolygu ar y cyd.

**Cymunedau a rhanddeiliaid**

- Adroddiadau cynnydd blynyddol.
- Cyfleoedd ymgysylltu â'r cyhoedd.
- Digwyddiadau a thrafodaethau yn y gymuned.
- Astudiaethau achos, straeon effaith ac enghreifftiau o arfer da.

DRAFT

**Adroddiadau cyhoeddus**

- Crynodeb cynnydd blynyddol ieuenctid gyfeillgar.
- Diweddariad strategaeth flynyddol gyhoeddus.
- Astudiaethau achos a ffocws ar bartneriaethau.
- Diweddariadau digidol sy'n cael eu rhannu trwy gydol y flwyddyn.
- Cyfleoedd i gymunedau a phartneriaid roi adborth ar gynnydd.

Bydd y dulliau gweithredu hyn yn helpu i sicrhau bod y strategaeth yn parhau i fod yn ddogfen fyw sy'n esblygu'n barhaus mewn ymateb i anghenion a chyfleoedd newidiol.

**Mesur llwyddiant**

Bydd llwyddiant yn cael ei fesur trwy gyfuniad o ddata meintiol, adborth ansoddol, gweithgarwch gwerthuso ac ymgysylltiad parhaus â phobl ifanc a phartneriaid.

Yn hytrach na dibynnu ar un mesur llwyddiant, byddwn yn defnyddio dull gweithredu cytbwys sy'n ystyried cyrhaeddiad, ansawdd, canlyniadau ac effaith.

Byddwn yn monitro:

*Cyrhaeddiad a chyfranogiad*

- Nifer y bobl ifanc sy'n manteisio ar gyfleoedd gwaith ieuenctid.
- Cyfranogiad ar draws cymunedau a grwpiau oedran gwahanol.
- Cyfranogiad gan grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol a grwpiau â blaenoriaeth.
- Lefelau ymgysylltu mewn ysgolion, cymunedau, allgymorth a darpariaeth ddigidol.

*Ansawdd a phrofiad*

- Bodlonrwydd ac adborth pobl ifanc.
- Ymdeimlad o berthyn, hyder a llesiant pobl ifanc.
- Hygyrchedd a chynhwysiant y ddarpariaeth.
- Cyflawni yn erbyn y Safonau Gwaith Ieuenctid Cenedlaethol.

*Canlyniadau ac effaith*

- Canlyniadau datblygiad personol a chymdeithasol.
- Cyflawniadau achrededig a chydnabyddedig.
- Symud ymlaen i addysg, cyflogaeth, hyfforddiant, cyfleoedd gwirfoddoli ac arweinyddiaeth.
- Canlyniadau llesiant a chyfranogiad.
- Canlyniadau ymyrraeth gynnar ac atal.

DRAFT

*Partneriaethau a datblygu systemau*

- Lefelau ymgysylltiad partneriaid.
- Prosiectau a mentrau cydweithredol.
- Cyfranogiad o fewn rhwydweithiau a fforymau partneriaeth.
- Gweithgarwch dysgu a gwella ar y cyd.

*Datblygu'r gweithlu*

- Cymwysterau'r gweithlu a chynlluniau datblygu wedi cael eu cwblhau.
- Recriwtio a chadw gwirfoddolwyr.
- Gallu a hyder yn y Gymraeg.
- Argaeledd cyfleoedd dwyieithog a chyfrwng Cymraeg.
- Llesiant a gwydnwch y gweithlu.
- Defnyddio a chwblhau cynlluniau gwaith gweithwyr ieuenctid.

Bydd gwybodaeth am berfformiad yn cael ei thynnu o ffurflenni Llywodraeth Cymru, adroddiadau Grant Cymorth Ieuenctid, data perfformiad gwasanaethau, gweithgaredd gwerthuso, cynlluniau busnes, casgliadau archwilio ac ymgysylltiad parhaus.

**Adolygiad blynyddol ac adroddiad blynyddol**

Bydd cynnydd yn erbyn y strategaeth hon yn cael ei adolygu'n flynyddol trwy wybodaeth am berfformiad, casgliadau ymgysylltu, gweithgarwch hunanasesu ac adborth gan bartneriaethau.

Bydd diweddariad blynyddol yn cael ei rannu gyda phobl ifanc, partneriaid a rhanddeiliaid, gan dynnu sylw at gyflawniadau, heriau a blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn i ddod.

Bydd y strategaeth yn parhau i fod yn ddogfen fyw a gellir ei haddasu mewn ymateb i anghenion sy'n dod i'r amlwg, cyfleoedd, tystiolaeth ac adborth trwy gydol oes y strategaeth.

**Gwelliant parhaus**

Rydym wedi ymrwymo i ddatblygu diwylliant o ddysgu, myfyrio a gwelliant parhaus. Ni fydd gwelliant yn cael ei ystyried trwy fesurau perfformiad yn unig. Bydd gwerth cyfartal yn cael ei roi ar brofiadau, straeon ac adborth pobl ifanc, gwirfoddolwyr, ymarferwyr a phartneriaid.

Bydd Safonau Gwaith Ieuenctid Cenedlaethol Cymru yn darparu'r fframwaith ar gyfer adolygu ansawdd, nodi cryfderau a blaenoriaethu meysydd i'w datblygu. Ochr yn ochr â hyn, byddwn yn parhau i ddefnyddio data gwasanaeth, gwerthusiadau, gweithgarwch archwilio, casgliadau ymchwil ac adborth gan bobl ifanc a phartneriaid i lywio gwelliant.

Yn bwysig ddigon, ni fyddwn yn aros tan 2032 i adolygu cynnydd.

DRAFT

Bydd y strategaeth yn cael ei hadolygu'n flynyddol i sicrhau bod:

- Anghenion sy'n dod i'r amlwg yn cael eu nodi a'u deall.
- Barn pobl ifanc yn parhau i lunio'r ddarpariaeth.
- Partneriaid yn cael cyfleoedd i ddylanwadu ar flaenoriaethau.
- Adnoddau'n parhau i ganolbwyntio ar y meysydd lle mae'r angen mwyaf.
- Cyfleoedd a dulliau arloesol newydd yn gallu cael eu hymgorffori.
- Cynnydd yn gallu cael ei ddathlu a heriau'n cael sylw.

Bydd y dull gweithredu hwn yn cynnig modd i'r strategaeth barhau i fod yn ymatebol, perthnasol ac adlewyrchu profiadau pobl ifanc trwy gydol ei hoes.

**Yn y dyfodol**

Mae pobl ifanc wedi bod yn glir ynglŷn â'r hyn sy'n bwysig iddyn nhw: perthnasoedd dibynadwy, mannau diogel, cyfleoedd ystyrlon, cymunedau cryf a gwir lais yn y penderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau.

Mae'r strategaeth hon yn nodi sut y byddwn yn ymateb i'r negeseuon hyn trwy bartneriaeth, cyfranogiad a gweithredu ar y cyd.

Trwy gydweithio, gwrando ar bobl ifanc ac adeiladu ar gryfderau ein cymunedau, diwylliant, iaith a phartneriaid, byddwn yn parhau i greu cyfleoedd sy'n helpu pobl ifanc i deimlo bod ganddynt gysylltiad, eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, eu cefnogi ac yn obeithiol am eu dyfodol.

Dros y pum mlynedd nesaf, rydym am i waith ieuenctid fod yn fwyfwy gweladwy, hygyrch a chael ei gwerthfawrogi mwy o fewn cymunedau ar draws Ceredigion. Trwy gydweithio, gwrando ar bobl ifanc ac adeiladu ar gryfderau ein cymunedau, diwylliant, iaith a phartneriaethau, byddwn yn creu mwy o gyfleoedd i bobl ifanc gysylltu, cyfrannu, perthyn a ffynnu. Mae pobl ifanc wedi helpu i lunio'r strategaeth hon a byddant yn parhau i lunio ei dyfodol. Gyda'n gilydd, byddwn yn sicrhau bod gwaith ieuenctid yn parhau i fod yn rym pwerus ar gyfer newid cadarnhaol ar draws Ceredigion.

**Cymeradwyaeth ac Ymrwymiad**

Mae'r strategaeth hon wedi cael ei datblygu mewn partneriaeth â phobl ifanc, cymunedau, ymarferwyr a phartneriaid ar draws Ceredigion. Mae'n adlewyrchu ymrwymiad cyffredin i sicrhau bod gan bob person ifanc fynediad at gyfleoedd gwaith ieuenctid o safon uchel sy'n cefnogi eu llesiant, eu datblygiad a'u dyheadau ar gyfer y dyfodol.

Rydym wedi ymrwymo i gydweithio i gyflawni'r blaenoriaethau a nodir yn y strategaeth hon a sicrhau bod pobl ifanc yn parhau i fod wrth wraidd y broses o'i gweithredu, ei monitro a'i adolygu trwy gydol ei hoes.

| **Enw** | **Sefydliad** | **Llofnod** | **Dyddiad** |
|---|---|---|---|
| Prif Weithredwr | Cyngor Sir Ceredigion | | |
| Arweinydd y Cyngor | Cyngor Sir Ceredigion | | |
| Aelod Cabinet dros Ysgolion, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau | Cyngor Sir Ceredigion | | |
| Swyddog Arweiniol Corfforaethol | Cyngor Sir Ceredigion | | |
| Rheolwr Corfforaethol | Gwasanaeth Ieuenctid Ceredigion | | |
| Cadeirydd | Cyngor Ieuenctid Ceredigion | | |
| Cadeirydd | Fforwm Darparwyr Plant a Phobl Ifanc | | |
| Cynrychiolydd y Sector Gwirfoddol | | | |

DRAFT

# RHAN 5 - ATODIADAU

## Atodiad A – Sut cafodd y Strategaeth hon ei datblygu

**Ein dull gweithredu**

Datblygwyd y strategaeth hon trwy raglen gynhwysfawr o ymgysylltu, ymgynghori, gwerthuso a chasglu tystiolaeth a gynhaliwyd rhwng 2025 a 2026.

Cynlluniwyd y broses i sicrhau bod lleisiau pobl ifanc wrth wraidd y strategaeth, gan elwa hefyd ar wybodaeth, profiad ac arbenigedd gweithwyr ieuenctid, gwirfoddolwyr, partneriaid, sefydliadau cymunedol a rhanddeiliaid.

Mae'r strategaeth wedi cael ei llywio gan:

- Ymgysylltu helaeth â phobl ifanc ar draws Ceredigion.
- Ymgynghori â phartneriaid a rhanddeiliaid.
- Ymgysylltiad staff y Gwasanaeth Ieuenctid.
- Dadansoddiad o ddata gwaith ieuenctid lleol a gwybodaeth am berfformiad.
- Casgliadau gwerthusiad Grant Cymorth Ieuenctid Llywodraeth Cymru.
- Casgliadau Archwiliad Gwaith Ieuenctid Llywodraeth Cymru.
- Cynllunio busnes gwasanaeth a gweithgarwch gwella.
- Strategaethau a blaenoriaethau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol presennol.
- Cyfranogiad parhaus ac adborth a gasglwyd trwy gyflawni gwaith ieuenctid.

**Ymgysylltu â phobl Ifanc**

Mae lleisiau pobl ifanc wedi llywio pob cam o'r strategaeth.

Rhwng Ionawr a Mehefin 2026, cynhaliwyd gweithgareddau ymgysylltu mewn ysgolion, clybiau ieuenctid, lleoliadau allgymorth, lleoliadau cymunedol a llwyfannau digidol ar draws Ceredigion.

Roedd yr ymgysylltu wedi cynnwys:

- Arolwg ieuenctid ar draws y sir.
- Gweithgareddau ymgysylltu yn yr ysgol.
- Clybiau ieuenctid cymunedol.
- Gwaith allgymorth a gwaith ieuenctid datgysylltiedig.
- Trafodaethau'r Cyngor Ieuenctid.
- Grwpiau cyfranogi.
- Ymgysylltu â Phrosiect Ysbrydoli.
- Ymgysylltu â phobl ifanc sy'n cael addysg gartref.
- Ymgynghoriaeth ddigidol ac ymgysylltu â'r cyfryngau cymdeithasol.
- Sgyrsiau anffurfiol trwy ymarfer gwaith ieuenctid bob dydd.

Roedd cyfanswm o:

- Dros **400 o bobl ifanc** wedi cyfrannu'n uniongyrchol at ddatblygiad y strategaeth.
- **195 o bobl ifanc** wedi cwblhau'r arolwg strategaeth pwrpasol.
- Roedd pobl ifanc wedi cymryd rhan trwy ymgynghoriad strwythuredig a sgyrsiau gwaith ieuenctid anffurfiol.

Roedd pobl ifanc wedi tynnu sylw'n gyson at y canlynol:

- Pwysigrwydd perthnasoedd dibynadwy.

DRAFT

- Mannau diogel a chroesawgar.
- Mwy o gyfleoedd yn nes at adref.
- Trafnidiaeth a hygyrchedd gwell.
- Cyfathrebu a gwybodaeth well.
- Mwy o deithiau, profiadau a gweithgareddau.
- Cefnogaeth ar gyfer llesiant.
- Cyfleoedd i ddylanwadu ar benderfyniadau.

**Ymgysylltu â phartneriaid a rhanddeiliaid**

Roeddem wedi ymgysylltu ag ystod eang o bartneriaid a rhanddeiliaid o bob rhan o system gwaith ieuenctid Ceredigion.

Roedd hyn yn cynnwys cynrychiolwyr o'r meysydd canlynol:

- Addysg.
- Iechyd.
- Cyfiawnder Ieuenctid.
- Sefydliadau gwirfoddol.
- Grwpiau cymunedol.
- Sefydliadau Cymraeg.
- Sefydliadau ffydd.
- Darparwyr chwaraeon a hamdden.
- Sefydliadau gwaith ieuenctid rhanbarthol a chenedlaethol.
- Gwasanaethau ymyrraeth gynnar ac atal.

Roedd yr ymgysylltu wedi cynnwys:

- Arolygon partneriaid.
- Trafodaethau Fforwm Darparwyr.
- Gweithdai partneriaeth.
- Cyfarfodydd strategol.
- Sgyrsiau un-i-un.
- Cynllunio cydweithredol parhaus.

Roedd cyfanswm o:

- **30 o sefydliadau partner** wedi cyfrannu'n uniongyrchol trwy'r arolwg partneriaid a'r broses ymgynghori.

Roedd partneriaid wedi tynnu sylw'n gyson at y canlynol:

- Pwysigrwydd partneriaethau.
- Heriau a chyfleoedd gwledig.
- Cynaliadwyedd y gweithlu.
- Llesiant ac atal.
- Llais a chyfranogiad ieuenctid.
- Llwybrau cyfathrebu ac atgyfeirio.

**Ymgysylltu â'r gweithlu**

Mae barn staff a gwirfoddolwyr hefyd wedi chwarae rôl bwysig wrth lunio'r strategaeth.

Roedd yr ymgysylltu wedi cynnwys:

- Arolygon staff.

- Trafodaethau tîm.
- Sesiynau datblygu gwasanaethau.
- Gweithdai rheoli.
- Digwyddiadau cynllunio strategol.

Roedd staff wedi tynnu sylw at y canlynol:

- Pwysigrwydd ymarfer sy'n seiliedig ar berthnasoedd.
- Natur wledig a chydraddoldeb mynediad.
- Datblygu'r gweithlu.
- Gweithio mewn partneriaeth.
- Atal ac ymyrraeth gynnar.
- Darpariaeth Gymraeg.
- Gwaith ieuenctid digidol.

**Tystiolaeth a gwerthuso**

Ochr yn ochr â gweithgarwch ymgysylltu, mae'r strategaeth wedi cael ei llywio gan amrywiaeth o ffynonellau tystiolaeth gan gynnwys:

- Ystadegau Gwaith Ieuenctid Llywodraeth Cymru.
- Casgliadau gwerthuso'r Grant Cymorth Ieuenctid.
- Casgliadau'r Archwiliad Gwaith Ieuenctid.
- Cynllun Busnes y Gwasanaeth Ieuenctid.
- Data perfformiad a chyfranogiad.
- Dadansoddeg ymgysylltu digidol.
- Safonau Gwaith Ieuenctid Cenedlaethol.
- Datblygiadau polisi lleol a chenedlaethol.

Mae hyn wedi sicrhau bod y strategaeth yn adlewyrchu profiad byw a thystiolaeth gadarn.

**Ein hymrwymiad i gyd-gynhyrchu**

Nid diwedd y sgwrs yw datblygiad y strategaeth hon.

Bydd pobl ifanc, cymunedau, partneriaid, gwirfoddolwyr a staff yn parhau i lunio'r broses o weithredu, monitro ac adolygu trwy gydol oes y strategaeth.

Trwy'r Cyngor Ieuenctid, fforymau ieuenctid, grwpiau cyfranogi, Fforwm Darparwyr Plant a Phobl Ifanc, Rhwydwaith Gwaith Ieuenctid blynyddol a gweithgareddau ymgysylltu parhaus, byddwn yn parhau i wrando, dysgu ac addasu.

Mae'r strategaeth hon wedi'i llunio gan bobl ifanc a bydd yn parhau i gael ei llunio gan bobl ifanc wrth iddi gael ei chyflwyno.

# Atodiad B – Llais Pobl Ifanc

**Gwrando ar bobl ifanc**

Mae pobl ifanc wedi bod wrth wraidd datblygiad y strategaeth hon. Trwy arolygon, gweithdai, clybiau ieuenctid, sesiynau mewn ysgolion, gweithgareddau allgymorth, grwpiau cyfranogi, ymgysylltu digidol a sgyrsiau anffurfiol, roedd pobl ifanc wedi rhannu eu profiadau, eu syniadau a'u dyheadau ar gyfer dyfodol gwaith ieuenctid yng Ngheredigion.

Mae'r blaenoriaethau yn y strategaeth hon wedi cael eu dylanwadu'n uniongyrchol gan yr hyn sydd bwysicaf i'r bobl ifanc.

Er bod profiad pob person ifanc yn wahanol, daeth sawl thema allweddol i'r amlwg yn gyson trwy gydol y broses ymgysylltu.

**Mynediad at gyfleoedd**

Dywedodd pobl ifanc wrthym eu bod am gael mwy o gyfleoedd sydd ar gael yn nes at ble maen nhw'n byw a mynediad haws at weithgareddau ar draws y sir.

- "Clwb ieuenctid sy'n nes at fy nhŷ."
- "Mwy o glybiau ieuenctid mewn pentrefi llai."
- "Dim clwb ieuenctid yn Nhregaron."
- "Y pentrefi sydd wedi cael eu hanghofio."
- "Rhy bell i deithio."
- "Methu cyrraedd yno."
- "Ddim yn byw ar lwybr bysiau."

Roedd pobl ifanc am gael mwy o glybiau ieuenctid, gweithgareddau, teithiau a chyfleoedd sy'n hygyrch waeth ble maen nhw'n byw.

**Mannau diogel a pherthnasoedd dibynadwy**

Roedd pobl ifanc wedi tynnu sylw'n gyson at bwysigrwydd mannau diogel ac oedolion dibynadwy.

- "Mannau diogel i dreulio amser."
- "Rhywun i siarad ag ef."
- "Cael eich deall."
- "Mae gweithwyr ieuenctid yn gwrando."
- "Mwy o amser gyda fy ngweithiwr ieuenctid."

Disgrifiodd llawer o bobl ifanc waith ieuenctid fel un o'r ychydig leoedd lle maen nhw'n teimlo'n gyfforddus, lle maen nhw'n cael eu derbyn ac yn rhydd rhag barn.

**Llesiant a pherthyn**

Roedd pobl ifanc wedi disgrifio llesiant fel llawer mwy na dim ond iechyd meddwl.

DRAFT

Roedden nhw wedi sôn am gyfeillgarwch, cysylltiadau, gweithgareddau, hyder, gweithgarwch corfforol a theimlo'n rhan o'u cymuned.

- "Bwyd ac mae'n gynnes."
- "Rwy'n ei chael hi'n anodd i adael y tŷ."
- "Rwy'n poeni am gwrdd â phobl newydd."

Roedd pobl ifanc wedi tynnu sylw at bwysigrwydd cyfleoedd sy'n helpu i leihau unigedd a chryfhau eu hymdeimlad o berthyn.

**Gweithgareddau, profiadau a sgiliau**

Dywedodd pobl ifanc wrthym eu bod am gael mwy o gyfleoedd i ddysgu, archwilio a phrofi pethau newydd.

- "Mwy o deithiau."
- "Mwy o gyfleoedd ar deithiau."
- "Hyfforddiant chwaraeon."
- "Codio."
- "Rheoli arian."
- "Profiad gwaith."

Roedd pobl ifanc am gael gweithgareddau sy'n bleserus, yn ymarferol, yn greadigol ac sy'n eu helpu i baratoi ar gyfer bywyd fel oedolyn.

**Llais a chyfranogiad ieuenctid**

Roedd pobl ifanc yn glir eu bod am i'w barn ddylanwadu ar benderfyniadau ac arwain at newid gweladwy.

- "Mae pethau'n newid pan rydym yn eu hawgrymu."
- "Clywed ein lleisiau ni."
- "Gofyn i ni beth rydyn ni eisiau."
- "Gwrando ar bobl ifanc."

Dywedodd pobl ifanc wrthym eu bod am fod yn rhan o'r strategaeth trwy gydol oes y strategaeth a gweld tystiolaeth bod eu cyfranogiad yn gwneud gwahaniaeth.

**Gwybodaeth a chyfathrebu**

Dywedodd llawer o bobl ifanc wrthym nad ydynt yn ymwybodol o'r cyfleoedd sydd ar gael iddynt.

- "Dydw i ddim yn gwybod beth sydd ar gael."
- "Gwybod pwy yw pwy. Gwybod beth maen nhw'n ei wneud a ble."
- "Sut i gymryd rhan."
- "Cyhoeddusrwydd gwell ar gyfer digwyddiadau."

Roedd pobl ifanc wedi tynnu sylw at bwysigrwydd cyfathrebu digidol, y cyfryngau cymdeithasol a gwybodaeth sy'n addas i bobl ifanc.

**Iaith, hunaniaeth a chymuned Cymru**

Roedd pobl ifanc yn cydnabod pwysigrwydd y Gymraeg, diwylliant, cymuned a hunaniaeth leol Cymru.

Roedden nhw wedi tynnu sylw at werth cyfleoedd sy'n dathlu diwylliant lleol ac ar yr un pryd sicrhau dewis, cynhwysiant a hygyrchedd.

Roedd pobl ifanc wedi siarad yn gadarnhaol hefyd am eu cymunedau, cyfeillgarwch, amgylcheddau lleol a'r cyfleoedd i gysylltu â natur.

**Beth mae pobl ifanc am ei gael yn y dyfodol**

Ar draws yr holl weithgareddau ymgysylltu, roedd pobl ifanc yn gofyn yn gyson am y canlynol:

- Mannau diogel a chroesawgar.
- Oedolion dibynadwy a pherthnasoedd cadarnhaol.
- Mwy o gyfleoedd lleol.
- Trafnidiaeth a hygyrchedd gwell.
- Mwy o deithiau a phrofiadau.
- Cyfleoedd i ddysgu sgiliau newydd.
- Cymorth ar gyfer llesiant.
- Cyfathrebu cryfach.
- Cyfranogiad ystyrlon.
- Mwy o ddylanwad dros benderfyniadau.
- Cyfleoedd cynhwysol ar gyfer pob person ifanc.
- Cynnig gwaith ieuenctid gweladwy a hygyrch ar draws Ceredigion.

Mae'r chwe blaenoriaeth strategol o fewn y strategaeth hon wedi cael eu datblygu'n uniongyrchol mewn ymateb i'r negeseuon hyn, a byddant yn parhau i gael eu llunio gan bobl ifanc trwy gydol y broses weithredu.

DRAFT

# Atodiad C – Sefydliadau Partner a Diolchiadau

Mae datblygiad y strategaeth hon wedi cael ei gefnogi gan bobl ifanc, gweithwyr ieuenctid, gwirfoddolwyr, sefydliadau cymunedol, ysgolion, aelodau etholedig, gwasanaethau cyhoeddus a phartneriaid ar draws Ceredigion a thu hwnt.

Hoffem ddiolch i bawb a roddodd eu hamser, eu profiad, eu syniadau a'u harbenigedd trwy gydol datblygiad y strategaeth hon. Mae eu cyfraniadau wedi helpu i sicrhau bod y blaenoriaethau a'r uchelgeisiau a nodir yn y cynllun hwn yn adlewyrchu anghenion, dyheadau a phrofiadau pobl ifanc a chymunedau ar draws Ceredigion.

Roedd ymgysylltu wedi digwydd trwy arolygon, gweithdai, ymweliadau ag ysgolion, clybiau ieuenctid, grwpiau cyfranogi, cyfarfodydd partneriaeth, grwpiau ffocws, ymgysylltu ar-lein a thrafodaethau strategol. Diolch yn arbennig i'r cannoedd o bobl ifanc a rannodd eu barn a'u profiadau, gan helpu i lunio cyfeiriad gwaith ieuenctid yng Ngheredigion yn y dyfodol.

**Sefydliadau, Grwpiau a Lleoliadau**

Cyfrannodd y sefydliadau, grwpiau, gwasanaethau a lleoliadau canlynol at ddatblygiad y strategaeth hon trwy arolygon, gweithgarwch ymgynghori, gweithdai, cyfarfodydd, grwpiau ffocws a digwyddiadau ymgysylltu.

**A-Dd**

- Arad Goch
- Canolfan Byd Gwaith
- Cered
- Ceredigion Actif
- Clwb Ieuenctid Aberaeron
- Clwb Ieuenctid Aberteifi
- Clwb Ieuenctid Penparcau
- Clybiau Bechgyn a Merched Cymru
- Clybiau Ffermwyr Ifanc Ceredigion (CFfI)
- Cynghorwyr ac Aelodau Cabinet Ceredigion
- Cyngor Ieuenctid

**E-I**

- EYST
- Fforwm Darparwyr Plant a Phobl Ifanc Ceredigion
- Fforwm Llesiant ac Ymddygiad Ysgolion Ceredigion
- Ffynnon
- Girlguiding
- Girlguiding Ceredigion
- Gwasanaeth Cydraddoldeb a Chynhwysiant, Cyngor Sir Ceredigion



DRAFT

- Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG Cymru)
- Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru
- Gyrfa Cymru
- Heddlu Dyfed-Powys
- Ieuenctid Tysul

**L-S**

- Labordy Arweinyddiaeth Gwaith Ieuenctid
- Llysgenhadon Cymunedol Aberystwyth
- Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Ceredigion
- RAY Ceredigion
- ScoutsCymru
- Sgowtiaid Ceredigion

**T-Y**

- Urdd Gobaith Cymru
- Ymddiriedolaeth Genedlaethol
- Ysbrydoli (Grŵp Cymorth Ôl-16)
- Ysgol Bro Teifi
- Ysgol Gyfun Aberaeron
- Ysgol Henry Richard
- Ysgol Penglais
- Ysgol Penweddig
- Ysgol Plascrug
- Ysgol Uwchradd Aberteifi

**Ffocws ar bartneriaeth**

Mae'r astudiaethau achos canlynol yn tynnu sylw at yr ystod amrywiol o sefydliadau, prosiectau a phartneriaethau sy'n cyfrannu at waith ieuenctid ar draws Ceredigion. Maent yn dangos yr ymdrech ar y cyd y mae ei hangen i gefnogi llesiant, cyfranogiad, datblygiad personol a chyfranogiad cymunedol pobl ifanc. Er bod pob enghraifft yn cyfateb yn gryf ag un o'r blaenoriaethau strategol, mae llawer yn cyfrannu at sawl blaenoriaeth ac yn dangos cryfder system gwaith ieuenctid ehangach Ceredigion.

DRAFT

🔵 **Blaenoriaeth 1 – Mynediad at Waith Ieuenctid o Safon Uchel**

🌟 **Ffocws ar Bartneriaeth – Pobl ifanc yn creu newid: mynd i'r afael â thlodi mislif**

Roedd pobl ifanc wedi nodi tlodi mislif fel problem sy'n effeithio ar eu cyfoedion ac wedi gweithio ochr yn ochr ag ysgolion, gweithwyr ieuenctid a phartneriaid cymunedol i wella mynediad at gefnogaeth, gwybodaeth ac adnoddau. Trwy gyfranogiad ac ymgysylltu dan arweiniad ieuenctid, roedd pobl ifanc wedi helpu i ddylanwadu ar newidiadau ymarferol sydd wedi arwain at fentrau urddas mislif yn cael eu hymgorffori ym mhob ysgol uwchradd a rhwydwaith cynyddol o sefydliadau cymunedol ar draws Ceredigion.

Mae'r prosiect yn dangos sut y gall llais ieuenctid nodi'r rhwystrau sy'n effeithio ar gyfranogiad a llesiant, ac ar yr un pryd creu atebion ymarferol sy'n gwella mynediad at gymorth. Trwy leihau stigma, cynyddu ymwybyddiaeth a gwella mynediad at gynhyrchion, mae'r fenter wedi helpu i sicrhau y gall mwy o bobl ifanc gymryd rhan yn hyderus mewn ysgolion, gwaith ieuenctid a bywyd cymunedol.

Mae'r gwaith hwn yn tynnu sylw at bwysigrwydd gwrando ar bobl ifanc, ymateb i'w profiadau a chreu atebion dan arweiniad ieuenctid sy'n gwneud gwahaniaeth parhaol.

---

🟢 **Blaenoriaeth 2 – Cymunedau Gwledig Ffyniannus**

🌟 **Ffocws ar Bartneriaeth – Clybiau Ffermwyr Ifanc Ceredigion (CFfI)**

Mae CFfI Ceredigion yn un o fudiadau gwirfoddol mwyaf y sir dan arweiniad ieuenctid ac mae'n chwarae ròl bwysig wrth gefnogi pobl ifanc ar draws cymunedau gwledig. Trwy glybiau lleol, gweithgareddau sirol, cystadlaethau, cyfleoedd gwirfoddoli a rolau arweinyddiaeth, mae pobl ifanc yn datblygu hyder, sgiliau, cyfeillgarwch ac ymdeimlad cryf o berthyn.

I lawer o bobl ifanc, mae CFfI yn darparu cyfleoedd a allai fod yn anodd manteisio arnynt fel arall oherwydd daearyddiaeth ac ynysu gwledig. Mae'n helpu pobl ifanc i feithrin cysylltiadau, cyfrannu at eu cymunedau a datblygu profiad arweinyddiaeth ymarferol ac ar yr un pryd dathlu diwylliant Cymru, hunaniaeth leol ac ysbryd cymunedol.

Mae gwaith CFfI yn dangos y rôl bwysig y mae sefydliadau cymunedol yn ei chwarae o ran helpu pobl ifanc i ffynnu o fewn cymunedau gwledig a sicrhau bod cyfleoedd yn bodoli y tu hwnt i ganolfannau poblogaeth mwy o faint.

---

DRAFT

### 🟡 Blaenoriaeth 3 – Llesiant, Perthyn a Pherthnasoedd Dibynadwy

#### ☀️ Ffocws ar Bartneriaeth – Area 43

Ers dros 25 mlynedd, mae Area 43 wedi cefnogi llesiant pobl ifanc trwy berthnasoedd dibynadwy, mannau diogel ac ymarfer dan arweiniad ieuenctid. Gan weithio ar draws Ceredigion, mae'r sefydliad yn darparu cwnsela, gwasanaethau cymorth, mentrau llesiant a chyfleoedd i bobl ifanc ddylanwadu ar y gwasanaethau y maen nhw'n eu derbyn.

Wrth wraidd gwaith Area 43 mae'r gred y dylai pob person ifanc gael rhywle i droi ato, rhywun i siarad ag ef a chyfleoedd i lunio ei ddyfodol. Trwy ddull hyblyg sy'n seiliedig ar berthnasoedd, mae pobl ifanc yn cael eu cefnogi i feithrin hyder, gwella llesiant a chryfhau eu hymdeimlad o berthyn.

Mae Area 43 yn dangos y rôl bwerus y gall gwaith ieuenctid a gwasanaethau cymorth ieuenctid ei chwarae o ran darparu ymyrraeth gynnar, lleihau unigedd a helpu pobl ifanc i deimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, bod ganddynt gysylltiad a'u bod yn cael eu cefnogi.

---

### 🟣 Blaenoriaeth 4 – Llais, Cyfranogiad ac Arweinyddiaeth Ieuenctid

#### ☀️ Ffocws ar Bartneriaeth – Cyngor Ieuenctid Ceredigion

Mae Cyngor Ieuenctid Ceredigion yn cynnig cyfleoedd i bobl ifanc gynrychioli eu cyfoedion, dylanwadu ar benderfyniadau a chyfrannu at drafodaethau sy'n effeithio ar fywydau pobl ifanc yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol.

Trwy ymgyrchoedd, ymgynghoriadau a mentrau megis y bleidlais flynyddol *Rhoi Dy Farn (Have Your Say),* mae pobl ifanc yn nodi'r materion sydd bwysicaf iddyn nhw ac yn gweithio'n uniongyrchol gyda'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau i ysgogi newid. Yn 2025, roedd mwy na 2,250 o bobl ifanc wedi cymryd rhan yn y bleidlais, gan helpu i lunio blaenoriaethau blynyddol y Cyngor Ieuenctid.

Mae'r Cyngor Ieuenctid yn dangos sut y gall cyfranogiad ystyrlon fynd y tu hwnt i ymgynghori a chreu cyfleoedd i bobl ifanc fod yn arweinwyr, eiriolwyr a dinasyddion gweithredol sy'n dylanwadu ar ddyfodol eu cymunedau.

---

### 🟠 Blaenoriaeth 5 – Rhwydwaith Gweithlu a Gwirfoddolwyr Medrus, Cynaliadwy a Dwyieithog

#### ☀️ Ffocws ar Bartneriaeth – Urdd Gobaith Cymru

Mae Urdd Gobaith Cymru yn rhoi cyfleoedd i bobl ifanc gymryd rhan, gwirfoddoli, arwain a datblygu trwy gyfrwng y Gymraeg. Trwy chwaraeon, y celfyddydau,

DRAFT

profiadau preswyl, gwirfoddoli a phrosiectau cymunedol, mae pobl ifanc yn ennill sgiliau, yn cael profiadau ac yn magu hyder gwerthfawr ac ar yr un pryd yn cryfhau eu cysylltiad ag iaith a diwylliant Cymru.

Cryfder arbennig yr Urdd yw ei allu i greu llwybrau dilyniant, gan gynnig modd i bobl ifanc symud o gyfranogiad i wirfoddoli, arweinyddiaeth a chyfraniad cymunedol. Mae llawer o bobl ifanc yn cael eu profiad cyntaf o drefnu digwyddiadau, cefnogi eraill neu arwain gweithgareddau trwy raglenni'r Urdd.

Mae'r sefydliad yn dangos sut mae buddsoddi mewn pobl ifanc heddiw yn helpu i greu gwirfoddolwyr, arweinwyr a gweithlu gwaith ieuenctid y dyfodol y bydd cymunedau'n dibynnu arnynt yfory.

---

### 🔴 Blaenoriaeth 6 – Partneriaethau, Cymunedau a Gweithredu ar y Cyd

#### 🌟 Ffocws ar Bartneriaeth – HCT a Gohebwyr Ifanc Cered

Mae HCT a Gohebwyr Ifanc Cered yn dangos gwerth gweithio mewn partneriaeth wrth greu cyfleoedd i bobl ifanc ddatblygu sgiliau, meithrin hyder a chyfrannu'n gadarnhaol at eu cymunedau.

Trwy'r cyfryngau creadigol, newyddiaduraeth, cyfweliadau, creu cynnwys ac adrodd straeon, mae pobl ifanc yn cael eu cefnogi i rannu eu profiadau, dathlu cyflawniadau a thynnu sylw at faterion sy'n bwysig iddyn nhw a'u cyfoedion. Mae'r prosiect yn darparu cyfleoedd ymarferol i ddatblygu sgiliau cyfathrebu, gwaith tîm, digidol ac arweinyddiaeth ac ar yr un pryd rhoi mwy o lais i bobl ifanc.

Trwy ddwyn ynghyd pobl ifanc, cymunedau a sefydliadau, mae'r fenter yn helpu i herio casgliadau negyddol, gwella ymwybyddiaeth o gyfleoedd lleol a chryfhau cysylltiadau rhwng gwasanaethau a'r bobl ifanc y maen nhw'n eu cefnogi.

Mae'r prosiect yn adlewyrchu pŵer gweithredu ar y cyd, gan ddangos sut y gall sefydliadau gydweithio i greu cyfleoedd arloesol sy'n fuddiol i bobl ifanc a chymunedau ar draws Ceredigion.

---

#### 🌟 Ffocws ar Bartneriaeth – Cynllun Gohebwyr Chwaraeon Ifanc Cered

Mae Cynllun Gohebwyr Chwaraeon Ifanc Cered yn dangos sut y gall gwaith ieuenctid arloesol, cyfrwng Cymraeg greu cyfleoedd unigryw i bobl ifanc ddatblygu hyder, sgiliau cyfathrebu a chysylltiad cryfach â'u cymunedau. Trwy newyddiaduraeth chwaraeon, sylwebaeth a'r cyfryngau digidol, mae pobl ifanc yn cael eu cefnogi i ddefnyddio'r Gymraeg mewn lleoliadau dilys, go iawn ac ar yr un pryd datblygu sgiliau sy'n gallu cefnogi cyfleoedd addysg, cyflogaeth a gwirfoddoli yn y dyfodol.

Mae'r prosiect yn rhoi cyfleoedd i bobl ifanc sylwebu ar gemau pêl-droed lleol, cynnal cyfweliadau, creu cynnwys ar y cyfryngau ac archwilio treftadaeth chwaraeon gyfoethog Cymru. Trwy gyfuno chwaraeon, iaith, y cyfryngau ac ymgysylltu cymunedol, mae'r cynllun yn creu llwyfan arbennig i bobl ifanc ddatblygu eu llais a rhannu'r straeon sy'n bwysig i'w cymunedau nhw.

Cryfder arbennig y prosiect yw ei allu i ymgysylltu â phobl ifanc nad ydynt efallai'n draddodiadol yn cymryd rhan mewn gweithgareddau Cymraeg y tu allan i'r ystafell ddosbarth. Trwy ddiddordeb cyffredin mewn chwaraeon a'r cyfryngau digidol, mae cyfranogwyr yn datblygu hyder wrth ddefnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol ac yn gyhoeddus, gan gryfhau sgiliau iaith a chysylltiadau cymunedol. Mae'r cynllun hefyd yn helpu pobl ifanc i ddatblygu sgiliau trosglwyddadwy mewn cyfathrebu, newyddiaduraeth, cyfweld, cyflwyno a chreu cynnwys digidol.

Trwy adrodd ar dimau a digwyddiadau lleol, mae pobl ifanc yn gyfranwyr gweithredol at fywyd cymunedol, gan helpu i ddathlu cyflawniadau lleol, cryfhau balchder cymunedol a herio'r canfyddiadau negyddol o bobl ifanc trwy adrodd straeon yn gadarnhaol. Mae'r prosiect yn darparu cyfleoedd i bobl ifanc barhau wedi'u cysylltu â'u cymunedau lleol wrth ddatblygu'r sgiliau a'r profiadau a all gefnogi dilyniant yn y dyfodol i addysg uwch, y cyfryngau, cyfathrebu a'r diwydiannau creadigol.

Mae Cynllun Gohebwyr Chwaraeon Ifanc Cered yn dangos sut y gall gweithio mewn partneriaeth, arloesedd digidol a chyfleoedd cymunedol greu profiadau ystyrlon i bobl ifanc ac ar yr un pryd cryfhau'r defnydd o'r Gymraeg, hyder, cyfranogiad a pherthyn ar draws Ceredigion.

DRAFT

## Atodiad D – Map System Gwaith Ieuenctid Ceredigion

Creu diagram syml:

Y person Ifanc yn y canol a'r partneriaid o'i amgylch:

- Ysgolion
- Gwaith Ieuenctid Cymunedol
- Cyfranogiad
- Gwaith Ieuenctid Digidol
- Y Sector Gwirfoddol
- Cyfiawnder Ieuenctid
- Ymyrraeth Gynnar
- Cymorth Llesiant
- Hyfforddiant a Chyflogadwyedd
- Partneriaethau Cymunedol

DRAFFT

## Atodiad E – Cyfateb â Strategaethau Cenedlaethol, Rhanbarthol a Lleol

| **Strategaeth** | **Cyfraniad** |
|---|---|
| Cyfarwyddydau Gwaith Ieuenctid 2026 | Fframwaith statudol |
| Safonau Gwaith Ieuenctid Cenedlaethol | Fframwaith ansawdd |
| Cymraeg 2050 | Y Gymraeg |
| Strategaeth Gorfforaethol | Atal a llesiant |
| Cynllun Llesiant y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus | Llesiant cymunedol |
| Model Gydol Oes | Ymyrraeth gynnar |
| Cynllun Cydraddoldeb Strategol | Cynhwysiant |
| Strategaeth Ddigidol | Cyfranogiad digidol |
| Model Llesiant Gydol Oes | Atal integredig ac ymyrraeth gynnar |
| Fframwaith Ymgysylltiad a Chynnydd Ieuenctid | Cynnydd ac atal NEET |
| Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg | Datblygu'r Gymraeg |
| Asesu Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae 2025 | Chwarae cymunedol, mynediad, cyfranogiad a darpariaeth wledig |
| Y Glasbrint Cyfiawnder Ieuenctid | Atal, dargyfeirio ac ymarfer Plant yn Gyntaf |
| Asesu Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae 2025 | Mynediad, cyfranogiad a darpariaeth gymunedol |
| Cynllun Gweithredu Gwrth-Hiliol Cymru | Cyfranogiad, cynhwysiant ac arweinyddiaeth |

DRAFT

# Atodiad F – Sylfaen Dystiolaeth a Chyfeiriadau

**Dogfennau cenedlaethol**

- Cyfarwyddydau Gwaith Ieuenctid
- Safonau Gwaith Ieuenctid Cenedlaethol
- Safonau Cyfranogiad

**Tystiolaeth leol**

- Arolwg Ieuenctid
- Arolwg Partneriaid
- Ymgysylltu â Staff
- Gwerthusiad Grant Cymorth Ieuenctid
- Archwiliad Gwaith Ieuenctid
- Asesu Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae 2025
- Rhoi Dy Farn 2025
- TikTok a Dadansoddeg Ymgysylltu Digidol
- Adroddiad Tlodi Gwledig
- Gwerthusiad BASS
- Cynllun Busnes y Gwasanaeth Ieuenctid

DRAFFT

## Atodiad G – Rhestr Wirio Cydymffurfio â Gofynion Statudol

| Gofyniad | Wedi'i gynnwys yn |
|---|---|
| Gweledigaeth | 1.1 |
| Cenhadaeth | 1.1 |
| Tystiolaeth o Angen | Rhan 2 |
| Cyfranogiad Pobl Ifanc | Rhan 2 / Blaenoriaeth 4 |
| Y Gymraeg | 1.2 a thrwy'r ddogfen |
| Safonau Cenedlaethol | 1.2 |
| Partneriaethau | Blaenoriaeth 6 |
| Gweithlu | Blaenoriaeth 5 |
| Monitro a Gwerthuso | Rhan 4 |
| Llywodraethu | Rhan 4 |

DRAFFT